# BAROMEDR CYMELL TAWEL CYMRU 2018

Mesur grym cymell tawel y tu hwnt i'r genedl-wladwriaeth.



**Cyflawnwyd gan**
British Council Wales
1 Kingsway
Caerdydd CF10 3AQ

**Awdur**
Jonathan McClory, Portland
Gyda chymorth Lisa Koh, Kit Neill
a Henri Ghosn, Portland

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| 1. Cyflwyniad | 4 |
| 2. Cymell Tawel a thwf rhanbarthau | 7 |
| 3. Methodoleg | 10 |
| 4. Canlyniadau | 15 |
| 5. Manylu ar Gymru | 21 |
| 6. Argymhellion ar gyfer datblygu a Defnyddio Grym Cymell Tawel Cymru Ymhellach | 25 |
| 7. Casgliadau | 28 |
| Atodiad: Mesuryddion mynegai Cymell Tawel rhanbarthau | 30 |
| Ffynonellau | 33 |


# Y BRITISH COUNCIL

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y DU ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn gweithio gyda mwy na 100 o wledydd ym meysydd y celfyddydau a diwylliant, yr iaith Saesneg, addysg a'r gymdeithas sifil. Y llynedd, ymgysyllton ni â mwy na 65 milwn o bobl yn uniongyrchol a 731 miliwn o bobl yn gyfan gwbl gan gynnwys cysylltiadau ar lein, darllediadau a chyhoeddiadau. Rydym yn gwneud cyfraniad cadarnhaol yn y gwledydd rydym yn gweithio gyda nhw ac yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin ymddiriedaeth. Sefydlwyd y British Council ym 1934 ac rydym yn elusen y DU sydd yn cael ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol ac yn gorff cyhoeddus y DU. Rydym yn derbyn 15 y cant o'n grant cyllido craidd gan Lywodraeth y DU.

Gallwch gadw mewn cysylltiad â'r British Council Cymru drwy:
twitter.com/BCouncil_Wales
www.facebook.com/BritishCouncilWales

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Y gallu i ddenu a pherswadio er mwyn cyflawni amcanion polisi tramor yw cymell tawel, a chysyniad ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol ydyw yn ei hanfod.

Fel y gŵyr y rheini sy'n gyfarwydd ag astudiaethau Cysylltiadau Rhyngwladol, y genedl-wladwriaeth yw'r brif uned a gaiff ei dadansoddi fel rhan o'r ddisgyblaeth. Mae hyn yn gwrthdaro rhywfaint ag egwyddorion sylfaenol cymell tawel. Un o'r egwyddorion hynny yw cydnabod bod gweithredwyr anwladwriaethol nawr yn gweithredu fel grym dichonadwy mewn materion tramor, a'u bod yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau y tu allan i fodelau traddodiadol diplomyddiaeth. Yn wir, mae'r adroddiad hwn wedi'i gymell gan yr egwyddor hon – sef bod angen cynyddol i lywodraethau ar lefel cenedl-wladwriaeth rannu grym â gweithredwyr anwladwriaethol. Gan symud y tu hwnt i'r aelod-wladwriaeth fel yr uned ddadansoddi, mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar lefel awdurdod is na chenedl-wladwriaeth, gan edrych ar rôl llywodraethau rhanbarthol* o ran datblygu a manteisio ar rym cymell tawel er mwyn hyrwyddo eu hamcanion rhyngwladol.

Mae dau brif ffactor sy'n llywio llywodraethau rhanbarthol tuag at faes materion tramor. Globaleiddio yw'r cyntaf, a'r gyd-ddibyniaeth gynyddol sy'n deillio o gydberthnasau economaidd rhyngwladol. Rhaid i ranbarthau gystadlu am gyfalaf, am dalent, am dwristiaid ac am allforion. Yn gynyddol, mae angen iddynt hefyd ganfod eu llais wrth ffurfio normau, rheolau a rheoliadau rhyngwladol, ynghyd â chyfrannu at ddatrys heriau mawr byd-eang megis newid hinsawdd.

Ymlediad grym yw'r ail ffactor sy'n denu rhanbarthau i'r llwyfan byd-eang, wrth i rym symud oddi wrth lywodraethau ar lefel cenedl-wladwriaeth a thuag at weithredwyr anwladwriaethol, megis rhanbarthau a dinasoedd. O ganlyniad, mae ymgysylltu â chynulleidfaoedd rhyngwladol yn fwy o hanfod na moethusrwydd erbyn hyn. Ar yr un pryd, wrth i rym ymledu oddi wrth genedl-wladwriaethau, darperir gofod, ymreolaeth a llwyfannau i ranbarthau allu ymgysylltu'n ystyrlon ar raddfa fyd-eang.

Er bod corff cynyddol o ymchwil academaidd ym maes 'paraddiplomyddiaeth' (diplomyddiaeth a gyflawnir gan lywodraethau nad ydynt yn rhai cenedl-wladwriaeth) ers cryn amser, mae llawer ohono o natur cysyniadol. Mae'r maes wedi cynhyrchu diffiniadau, a modelau hyd yn oed, sy'n rhoi strwythur i'r ffyrdd y mae llywodraethau rhanbarthol yn gweithredu diplomyddiaeth gyhoeddus ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd rhyngwladol y tu allan i'r sianeli diplomyddol traddodiadol a gaiff eu llywio gan aelod-wladwriaethau. Er hynny, nid yw'r ymchwil yn y maes hwn wedi symud llawer y tu hwnt i'r cam cysyniadol.

Fodd bynnag, nod y ddogfen hon yw gwthio paraddiplomyddiaeth llywodraethau rhanbarthol fel pwnc i gam ymchwil empirig drwy ddadansoddi grym cymell tawel. Drwy ddiwygio methodolegau sy'n bodoli eisoes ar gyfer mesur adnoddau cymell tawel cenedl-wladwriaethau, mae'r prosiect ymchwil hwn yn adeiladu fframwaith newydd ar gyfer asesu grym cymell tawel deg rhanbarth gwahanol. Mae'r fframwaith hwn ar ffurf mynegai cyfansawdd, sy'n caniatáu i ni gynhyrchu ciplun cymharol o adnoddau cymell tawel drwy gyfrifo un sgôr – yn seiliedig ar fwy na 60 o fesuryddion – ar gyfer pob rhanbarth.

*O ran y geirfa a ddefnyddir yn yr adroddiad, mae 'llywodraeth rhanbarthol' a'r ffurf fer 'rhanbarth' yn cael eu defnyddio i ddisgrifio ystod eang o awdurdodau gweinyddol sy'n bodoli ar lefel is na'r genedl-wladwriaeth. Buasai'n gywir i ddisgrifio Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon fel 'gwledydd' neu 'genhedloedd' o fewn y DU. Fodd bynnag, yng nghyd-destun penodol Cysylltiadau Rhyngwladol (ac i alluogi dadansoddiad cymharol effeithiol), 'llywodraeth rhanbarthol' a 'rhanbarth' yw'r termau mwyaf priodol.

Mae canlyniadau'r mynegai yn awgrymu mai'r rhanbarthau sydd â thraddodiad wedi'i hen sefydlu o adeiladu cenedl anwladwriaethaol – drwy ddulliau gwleidyddol, diwylliannol a ieithyddol – yw'r rhai sydd â'r cronfeydd mwyaf o rym cymell tawel. Fodd bynnag, wrth rannu'r mynegai yn rhannau cyfansoddol, darperir cipolwg o'r mannau lle gall rhanbarthau adeiladu ar eu cryfderau a mynd i'r afael â'u diffygion o ran cymell tawel, a sut gellir gwneud hynny.

Yn ogystal â darparu asesiad cymharol o rym cymell tawel rhanbarthol, un o amcanion craidd yr adroddiad hwn yw edrych yn benodol ar asedau cymell tawel unigryw Cymru, gyda'r nod o ddatblygu cyfres o argymhellion y gellir gweithredu arnynt.

Wrth ystyried y ddau gyda'i gilydd, mae'r data gwrthrychol a goddrychol ar gyfer Cymru yn adrodd perfformiad cymysg. Mae rhai cryfderau clir y gall Cymru adeiladu arnynt, yn enwedig o ran y ffafrioldeb a gynhyrchwyd o ganlyniad i apêl ei diwylliant chwaraeon, ond mae'n rhaid gwneud mwy i godi'r lefelau cyffredinol o ymwybyddiaeth.

Mae'r argymhellion i'w gweld ym Mhennod 6. Er ein bod yn cyfeirio'r argymhellion hynny at Lywodraeth Cymru yn bennaf, rhaid i ni gydnabod hefyd yr hyn y gall ac y dylai llywodraethau ei wneud, ynghyd â'r hyn na allant ac na ddylent ei wneud. Mae mwyafrif yr adnoddau cymell tawel y tu allan i reolaeth uniongyrchol llywodraethau. Pan fo llywodraethau'n gorymestyn eu hunain yn y gobaith o gryfhau eu grym cymell tawel, mae'r effeithiau gwirioneddol yn aml yn wahanol iawn i'r effeithiau a fwriadwyd.

Mae meysydd lle gall llywodraethau gael effaith cadarnhaol, fel rydym yn ei nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod ymyriadau llwyddiannus gan lywodraethau yn cynnwys cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid y tu hwnt i'r llywodraeth. Mae hyn yn wir nid yn unig i Gymru, ond i bob llywodraeth ranbarthol.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad canlynol yn gweithredu fel dull meincnodi defnyddiol ar gyfer llywodraethau ac ymchwilwyr fel ei gilydd. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd yn ysgogi rhagor o ymchwil yn y maes, ac yn mynd â'r ddadl yn ei blaen o ran sut gall rhanbarthau gael rhagor o reolaeth dros eu materion rhyngwladol drwy well dealltwriaeth a gwell defnydd o rym cymell tawel.

# 1. CYFLWYNIAD

## Mae bron i 30 mlynedd wedi bod ers i Joseph Nye fathu'r term a oedd yn cyfleu'r arfer polisi tramor sydd wedi bodoli ers canrifoedd, ond heb enw a heb fawr o ddealltwriaeth yn ei gylch. Pan ddiffiniodd Nye y term "cymell tawel" yn 1990,[1] taniodd gangen newydd o astudiaethau Cysylltiadau Rhyngwladol i bob pwrpas.

Nid yn unig mae'r cysyniad wedi cynhyrchu llawer o weithgarwch ysgolheigaidd, mae wedi cipio dychymyg y rhai mwyaf blaengar o blith diplomyddion, llunwyr polisi, ac arweinwyr y byd, ac mae'r rhai doethaf o'r rheini wedi rhoi grym cymell tawel wrth galon eu gwaith o lywio polisi tramor yn yr 21ain Ganrif.

Mae sawl apêl gan rym cymell tawel, ond wrth ei wraidd, mae'n ddefnyddiol gan ei fod yn disgrifio sut mae grym byd-eang wedi newid yn ystod blynyddoedd trawsnewidiol diwedd yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif, yn ogystal â phennu'r hyn y mae angen i wladwriaethau ei wneud er mwyn ymateb yn briodol. Elfen arall o apêl grym cymell tawel yw ei natur ddemocrataidd. Ni ellir ei brynu, rhaid ei ennill drwy werthoedd a thrwy ymddygiad. Mae'n wir bod grym gorfodi a grym cymell tawel yn cyd-fynd, ac mae'r gwledydd hynny sydd â'r mwyaf o adnoddau cymell tawel yn dueddol o fod â gallu grym gorfodi sylweddol hefyd. Ond nid yw asedau grym gorfodi yn gwarantu llwyddiant wrth ddatblygu adnoddau cymell tawel a'u troi yn ddylanwad.

Gan nad yw'n dibynnu ar ddefnyddio na bygwth gorfodi, nid eiddo'r genedl-wladwriaeth yn unig yw grym cymell tawel. Gall gweithredwyr anwladwriaethol – rhanbarthau a dinasoedd yn benodol – feithrin a defnyddio grym cymell tawel; ond nid yw gwneud hynny'n syml nac yn hawdd o reidrwydd. Yn wir, ni fu datblygu a gweithredu polisi tramor effeithiol erioed yn dasg syml, i weithredwyr gwladwriaethol nac anwladwriaethol, ond fel y dadleuir yn y gyfres o adroddiadau, *The Soft Power 30*,[2] mae'r dasg honno wedi dod yn fwy cymhleth ers troad y ganrif. Amlygir y cymhlethdod hwnnw mewn byd sy'n gynyddol aml-begynol, gyda mwy a mwy o weithredwyr polisi tramor, a thwf yn nifer a chyrhaeddiad y llwyfannau cyfathrebu sydd ar gael i arfer dylanwad drwy ymgyrchoedd a gwybodaeth.

Mae tri thuedd mawr byd-eang yn gweithredu fel grymoedd gwaelodol sy'n peri rhagor o gymhlethdod mewn materion tramor. Y cyntaf o'r rhain yw ansicrwydd geowleidyddol, sy'n deillio i raddau helaeth o ddau etholiad ysgytwol yn 2016 a gynhaliwyd ym Mhrydain ac yn Unol Daleithiau America. Mae effaith y ddau etholiad wedi arwain at gwestiynu sefydlogrwydd y drefn fyd-eang gyfredol sy'n llywodraethu masnachu a diogelwch, ynghyd â gwytnwch cynghreiriau hynafol a oedd yn ymddangos yn gwbl gadarn. Yr ail duedd mawr yw'r chwyldro digidol sy'n datblygu'n gyflym. Mae dadleuon a chanlyniadau'r tuedd hwn o ran materion tramor wedi'u hadrodd droeon, ond y pwynt allweddol yw bod y cynnydd yn y llwyfannau cyhoeddi a chyfathrebu yn her frawychus ac yn gyfle anferth i weithredwyr gwladwriaethaol ac anwladwriaethol siapio canlyniadau polisi tramor.

Y trydydd tuedd mawr – a'r un mwyaf perthnasol i'r astudiaeth hon yn ddi-os – yw ymlediad grym. Mae'r tuedd hwn wedi cychwyn ers sawl degawd,[3] a chaiff ei yrru'n bennaf gan rymoedd globaleiddio a thwf economaidd Asia. Gellir edrych ar ymlediad grym mewn dwy ffordd; mae'r gyntaf yn ymwneud â grym geowleidyddol, ac mae'r ail yn ymwneud â

strwythurau grym gwladwriaethaol yn erbyn rhai anwladwriaethol. Yn gyntaf, mae grym yn symud o'r Gorllewin i'r Dwyrain, wrth i ganolbwynt disgyrchiant economaidd a gwleidyddol symud o'r Iwerydd tuag at y Pasiffig.[4] Yn ail, mae grym yn symud oddi wrth lywodraethau ar lefel cenedl-wladwriaeth yn gyfan gwbl, ac yn symud tuag at weithredwyr anwladwriaethol. Mae'r ail elfen hon o ymlediad grym yn hanfodol er mwyn deall rôl newidiol llywodraethau rhanbarthol ym maes materion byd-eang.

Yn y cyd-destun newydd hwn, mae llu o weithredwyr anwladwriaethol wedi ymuno â'r ymrysonfa fyd-eang, a phob un yn gweithio i siapio digwyddiadau yn y gobaith o lywio canlyniadau tuag at eu gwerthoedd, eu credoau a'u blaenoriaethau eu hunain. Mae'r gweithredwyr anwladwriaethol newydd eu grymuso hyn yn cynnwys sefydliadau amlochrog, cyrff anllywodraethol, dyngarwyr, corfforaethau rhyngwladol, grwpiau cymdeithas sifil, undebau llafur, ac – y pwysicaf o bosibl – llywodraethau is-wladwriaethol.

Ymhlith y fframwaith hwn o weithredwyr anwladwriaethol, dadleuir mai rhanbarthau a dinasoedd (llywodraethau is-wladwriaethol) sydd â'r mwyaf o adnoddau, sydd yn y safle gorau, ac sydd â'r mwyaf o allu i gael effaith ar y llwyfan byd-eang. Mae'r rôl y mae llywodraethau rhanbarthol a dinesig o amgylch y byd wedi'i chwarae wrth siapio a sicrhau Cytgord Hinsawdd Paris yn 2016 yn enghraifft o hyn. Er bod Gweinyddiaeth Trump wedi tynnu'r Unol Daleithiau yn ôl o'r cytundeb ar lefel ffederal, mae cynghrair o feiri a llywodraethwyr ar draws yr Unol Daleithiau wedi gwneud addewid i gadw at y cytundeb, gan ddangos gallu llywodraethau i s-wladwriaethol i ddatblygu a gweithredu eu polisi tramor eu hunain mewn meysydd penodol – a hynny weithiau'n groes i bolisïau llywodraeth eu cenedl-wladwriaeth eu hunain.

Nid oes angen dweud, tra bod gan lywodraethau rhanbarthol a dinesig nawr fwy o ofod, ymreolaeth ac adnoddau i'w defnyddio i ddylanwadu ar ddigwyddiadau byd-eang, mae angen iddynt barhau i ganolbwyntio ar fannau y gallant achosi newid, ac osgoi'r mannau lle na allant. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar feysydd megis masnachu, buddsoddi, twristiaeth, diwylliant, addysg, yr amgylchedd, rhyngweithio rhwng pobl, a chwaraeon. Mae hefyd yn golygu osgoi materion sy'n ymwneud ag amddiffyn, rhyfel a diogelwch rhyngwladol. Felly, mae cylch gwaith rhyngwladol llywodraethau rhanbarthol yn bodoli bron yn gyfan gwbl yng nghyd-destun cymell tawel. Oherwydd hynny, yr adnoddau sydd ar gael i lywodraethau rhanbarthol ar gyfer siapio materion rhyngwladol yw'r rheini sy'n dibynnu ar ddenu a pherswadio. Mae hyn yn golygu bod meistroli cymell tawel yn hollbwysig i lywodraethau rhanbarthol sy'n gobeithio cael effaith ar y llwyfan byd-eang. Mewn perthynas â therminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, defnyddir 'llywodraethau rhanbarthol' i ddisgrifio ystod eang o awdurdodau gweinyddol sy'n bodoli ar lefel is na lefel cenedl-wladwriaeth. Yng nghyd-destun Cysylltiadau Rhyngwladol, 'llywodraeth ranbarthol' yw'r term mwyaf priodol.

P'un ai'n llywodraeth cenedl-wladwriaeth neu is-wladwriaeth, y rhwystr cyntaf i fanteisio'n effeithiol ar gymell tawel er mwyn cyrraedd amcanion polisi tramor yw mesur.[5] Ni all llywodraeth – gwladwriaeth na rhanbarth – ddefnyddio adnoddau cymell tawel oni bai bod ganddi ddarlun clir o'r adnoddau y mae ganddi fynediad atynt. Mae ymchwil eisoes yn bodoli sy'n ceisio mynd i'r afael â'r her mesur hwn ar gyfer cenedl-wladwriaethau. Fodd bynnag, nid oes ymchwil o'r fath yn bodoli ar gyfer llywodraethau ranbarthol.

Mae'r adroddiad canlynol yn ceisio mynd i'r afael â diffyg astudiaethau empirig ar fesur adnoddau cymell tawel rhanbarthau. Nod yr ymchwil hwn felly yw darparu man cychwyn ar gyfer dadansoddiad cymharol o rym cymell tawel rhai o'r rhanbarthau amlycaf – a mwyaf priodol i'w cymharu – yn y byd. Rydym wedi canolbwyntio ar gyfres o lywodraethau rhanbarthol sy'n fentrus ac yn weithgar yn rhyngwladol. Mae'r astudiaeth hon yn darparu ciplun cymharol o rym cymell tawel deg rhanbarth gwahanol, yn cynnwys llywodraethau is-wladwriaethol ar draws Prydain, Ewrop, Asia, Gogledd America ac America Ladin. Yn ogystal, mae'r astudiaeth yn canolbwyntio'n benodol ar


Gymru – yn rhoi rhagor o amser ac ymdrech i archwilio cryfderau a gwendidau grym cymell tawel Cymru, ac yn edrych ar sut gall Cymru adeiladu ar ei hadnoddau cymell tawel a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ganddi'n barod.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg bras o rym cymell tawel ei hun, ac yn ei osod yng nghyd-destun twf rhanbarthau a dinasoedd fel gweithredwyr polisi tramor dichonadwy. Mae wedyn yn darparu disgrifiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i adeiladu'r mynegai cyfansawdd a ddefnyddiwyd i asesu'r rhanbarthau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth a'u rhoi mewn trefn o ran eu hadnoddau cymell tawel. Yna, mae'r adroddiad yn rhoi canlyniadau sgoriau'r mynegai, ac yn edrych yn fanwl ar berfformiad Cymru, a'r goblygiadau o ran sut gall Llywodraeth Cymru ymateb yn briodol. I gloi, mae'r adroddiad yn edrych tua'r dyfodol ar yr hyn y gall ymchwil ar gymell tawel rhanbarthau ganolbwyntio arno yn y dyfodol.

Mae dau brif amcan yn siapio ac yn sylfaen i'r adroddiad hwn. Yr amcan cyntaf yw ysgogi ymchwil pellach ar fesur a defnyddio grym cymell tawel ar gyfer llywodraethau rhanbarthol. Yr ail yw darparu argymhellion y gellir gweithredu arnynt i lunwyr polisi rhanbarthol – a llunwyr polisi yng Nghymru yn benodol – ynghylch sut gallent wneud y mwyaf o'u hasedau cymell tawel.

**GRYM GORFODI A GRYM CYMELL TAWEL**

| GRYM GORFODI | GRYM CYMELL TAWEL |
|---|---|
| Grym gorfodi yw arfer dylanwad drwy orfodi, gan ddibynnu ar **dactegau fel grym milwrol, taliadau, a sancsiynau economaidd.** | Mae grym cymell tawel yn defnyddio atyniad a pherswâd er mwyn newid meddyliau a dylanwadu ar ymddygiad. Caiff grym cymell tawel ei greu a'i ddefnyddio drwy **ddiwylliant, diplomyddiaeth gyhoeddus, a chyfraniad cadarnhaol i'r byd.** |



# 2. CYMELL TAWEL A THWF RHANBARTHAU

## Yn y cyd-destun byd-eang newydd, sydd wedi'i siapio gan y tri thuedd mawr a nodwyd uchod, ni ellir dibynnu ar nerth milwrol a dylanwad economaidd yn unig er mwyn cyflawni holl flaenoriaethau rhyngwladol gwladwriaeth.

Mae siapio canlyniadau byd-eang mewn nifer o feysydd nawr yn dibynnu ar y gallu i annog cydweithio a chreu rhwydweithiau, gan ddenu a pherswadio, yn hytrach na gorfodi. Fel mae Joseph Nye wedi'i ddadlau'n flaenorol, gall grym *gydag* eraill fod yn bwysicach na grym *dros* eraill.[6]

Mae'r ffaith bod llywodraethau rhanbarthol yn gorfod dibynnu ar rym cymell tawel er mwyn dylanwadu yn golygu ei bod yn werth dechrau â diffiniad clir o'r cysyniad.  Gan fod y term wedi'i wreiddio mewn theori Cysylltiadau Rhyngwladol, gwell fyddai dechrau yno. Yn hanesyddol, yng nghyd-destun astudiaethau Cysylltiadau Rhyngwladol, mae'r cysyniad o rym ynddo'i hunan wedi cynnwys tuedd tuag at rym gorfodol. O ganlyniad, mae grym yn tueddu i gael ei fframio yn nhermau Dahl: un gweithredwr – gwladwriaeth yn aml – yn defnyddio ei adnoddau materol i gymell gwladwriaeth arall i wneud rhywbeth na fyddai wedi ei wneud fel arall.[7]

Mae grym gorfodi yn golygu dylanwadu drwy orfodi, ac mae'n dibynnu ar dactegau megis ymyrraeth filwrol, diplomyddiaeth gymhellol, cymell ag arian, a sancsiynau economaidd.[8] Ystyr cymell tawel, ar y llaw arall, yw'r "gallu i effeithio ar eraill i gael canlyniadau dymunol drwy ddulliau cyfetholiadol fel fframio'r agenda, perswadio, a denu mewn ffordd gadarnhaol".[9]

Mae strategaethau cymell tawel yn osgoi dulliau traddodiadol polisi tramor o abwyd a ffon, gan weithio yn hytrach i berswadio drwy greu a hwyluso rhwydweithiau, datblygu a chyfathrebu naratif grymus, sefydlu normau rhyngwladol, adeiladu cynghreiriau, a manteisio ar yr adnoddau allweddol sy'n anwylo gwledydd at ei gilydd.[10] Yn syml, "grym gorfodi yw gwthio; cymell tawel yw tynnu".[11]

Wrth ddiffinio cymell tawel, mae hefyd yn bwysig amlygu ei ffynonellau. Mae Nye wedi cyfeirio'n flaenorol at dair prif ffynhonnell cymell tawel: diwylliant, gwerthoedd gwleidyddol, a pholisi tramor.[12] Yn ôl Nye, pan fo diwylliant gwlad yn hyrwyddo gwerthoedd byd-eang y gall eraill uniaethu â nhw'n hawdd, mae'n naturiol atyniadol. Mae diwylliant, at ddibenion grym cymell tawel, yn cynnwys ffurfiau diwylliant uchel megis celf weledol a pherfformio, ynghyd â diwylliant poblogaidd megis ffilm, teledu a cherddoriaeth pop. Mae gwerthoedd gwleidyddol yn cyfeirio at gynnal rhyddfreiniau unigol a rhyddid, ynghyd â rheolaeth cyfraith a sefydliadau cyhoeddus cadarn. Gellir deall trydedd ffynhonnell cymell tawel Nye, polisi tramor, yn ôl y graddau y mae gwlad – neu grŵp – yn ymddangos fel petai'n gwneud cyfraniad byd-eang cadarnhaol. O'i eirio fel cwestiwn, a yw gwlad yn rym er budd neu er drwg i'r byd?

*Twf y rhanbarthau*

Gyda diffiniad cymell tawel wedi'i nodi, ynghyd â dealltwriaeth o'i ffynonellau craidd, gallwn symud tuag at beth yn union mae grym cymell tawel yn ei olygu i ranbarthau. Fel y trafodwyd uchod, mae grym yn symud oddi wrth lywodraethau ar lefel cenedl-wladwriaeth, wrth i fwy o weithredwyr anwladwriaethol chwarae rhan yn siapio digwyddiadau rhyngwladol. Er bod y llwyfan byd-eang yn fwy prysur â gweithredwyr newydd, mae datganoli grym wedi agor y gofod sydd ei angen ar lywodraethau rhanbarthol i ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd rhyngwladol.

Mae rhanbarthau – ynghyd â dinasoedd – wedi codi i'r llwyfan byd-eang am dri phrif reswm. I ddechrau, mae natur globaleiddio wedi tynnu rhanbarthau a dinasoedd i gydberthnasau rhyngwladol mwy rhyngddibynnol. Mae cysylltiadau cynyddol rhwng ardaloedd ar draws ffiniau yn golygu bod gan ranbarthau a dinasoedd ragor o ddiddordeb mewn agweddau ar fasnachu rhyngwladol, llif buddsoddi uniongyrchol o dramor, a chystadleuaeth am dalent sy'n gallu symud yn fyd-eang.[13] Yn ail, mae gan lawer o ranbarthau sydd â strwythurau hunanlywodraethu wedi'u hen sefydlu y capasiti, y gallu, a'r mecanwaith sydd ei angen i ymgysylltu â chynulleidfaoedd rhyngwladol, heb ddibynnu ar lywodraeth cenedl-wladwriaeth. Mae hyn yn golygu bod llywodraethau rhanbarthol yn gallu gosod eu blaenoriaethau rhyngwladol eu hunain, ac yna ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd rhyngwladol i leisio – ac yn ddelfrydol i gyflawni – y blaenoriaethau hynny. Yn drydydd, yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, mae llywodraethau ar lefel y genedl-wladwriaeth yn cefnogi ymdrechion llywodraethau rhanbarthol o ran gweithgarwch diplomyddiaeth gyhoeddus dramor, gan fod yr ewyllys da a gynhyrchir gan ymdrechion llywodraethau rhanbarthol yn dueddol o gronni ar lefel y genedl-wladwriaeth.[14]

Mae realiti globaleiddio a datganoli grym oddi wrth lywodraethau ar lefel cenedl-wladwriaeth yn cynnig heriau a chyfleoedd i lywodraethau rhanbarthol. Mae'r gyd-ddibyniaeth yn sgil globaleiddio, ynghyd â'r cystadlu cynyddol am adnoddau sy'n symud o gwmpas y byd ar ffurf cyfalaf, talent, twristiaid, a myfyrwyr rhyngwladol hyd yn oed, yn golygu bod angen i lywodraethau rhanbarthol nawr ddatblygu a chynllunio cynnig clir a deniadol i randdeiliaid rhyngwladol allweddol. Yn ffodus, mae'r tuedd o ymlediad grym sy'n digwydd ar yr un pryd yn cynnig yr ymreolaeth angenrheidiol iddynt wneud hynny.

Mae'r ffaith nad braint cenedl-wladwriaethau yn unig yw arfer diplomyddiaeth bellach yn un sydd wedi'i hen dderbyn mewn llenyddiaeth Cysylltiadau Rhyngwladol erbyn hyn. Mewn gwirionedd, dechrau'r 1990au oedd hi pan ddatblygodd dau ysgolhaig Cysylltiadau Rhyngwladol, Panayotis Soldatos ac Ivo Duchacek, y cysyniad o "baraddiplomyddiaeth" – sy'n deillio o "ddiplomyddiaeth gyfochrog".[15] Mae paraddiplomyddiaeth yn disgrifio'r broses o bolisi tramor a gyflawnir gan ein llywodraethau is-wladwriaethol. Mae enghreifftiau o lywodraethau rhanbarthol sydd wedi bod yn arfer paraddiplomyddiaeth – ar lefel sylfaenol o leiaf – ers degawdau. Ar hyn o bryd, mae 40 o 50 talaith yr Unol Daleithiau yn gweithredu swyddfeydd masnachu rhyngwladol dramor. Agorodd talaith Canada, Québec, ei swyddfa gynrychiadol ryngwladol gyntaf mor bell yn ôl â'r 1940au. Felly fel mae Québec yn ei ddangos, mae llywodraethau rhanbarthol wedi bod yn arfer paraddiplomyddiaeth ers degawdau. Y cwestiwn allweddol, felly, yw sut gall llywodraethau rhanbarthol ei harfer yn fwy effeithiol?

Yn ymarferol, er mwyn i lywodraethau rhanbarthol ymgysylltu'n effeithiol â chynulleidfaoedd rhyngwladol, mae angen iddynt ddatblygu a gweithredu eu hasedau grym cymell tawel unigryw eu hunain. Er bod ffyrdd dirifedi o ddatblygu adnoddau cymell tawel, mae'r gallu i fanteisio arnynt yn dibynnu ar arfer diplomyddiaeth gyhoeddus. Y diffiniad mwyaf syml o ddiplomyddiaeth gyhoeddus yw'r broses o lywodraeth yn rhyngweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd dramor mewn ymdrech i sicrhau gwell dealltwriaeth o werthoedd, blaenoriaethau a pholisïau'r llywodraeth honno.[16] Gan adeiladu ar y diffiniad hwnnw, caiff diplomyddiaeth gyhoeddus ei chyflawni'n gyffredinol â thri amcan eang mewn cof, yn ôl yr ysgolhaig diplomyddiaeth gyhoeddus Jay Wang:[17]

1. Hyrwyddo amcanion a pholisïau cenedlaethol gwlad;
2. Cyfathrebu delfrydau, credoau a gwerthoedd cenedl;
3. Adeiladu dealltwriaeth gyffredin a chydberthnasau ar draws ffiniau.

Mae modd dadlau y dylid gadael amcan cyntaf diplomyddiaeth gyhoeddus, sy'n ymwneud â blaenoriaethau a pholisi tramor trosfwaol gwlad ar lefel cenedl-wladwriaeth, i'r llywodraeth ar lefel

cenedl-wladwriaeth. Mewn llawer o achosion, gall llywodraethau rhanbarthol gyflawni'r ail a'r trydydd amcan a amlinellir uchod, a dylent wneud hynny.[18] Gan edrych ar yr ail amcan, mae'n debygol mai dyma lle mae'r mwyaf o orgyffwrdd rhwng diplomyddiaeth gyhoeddus ar lefel cenedl-wladwriaeth a lefel is-wladwriaeth. Mae gan lywodraethau canolog a rhanbarthol ran i'w chwarae wrth gyfathrebu delfrydau, credoau a gwerthoedd cenedl-wladwriaeth (a rhanbarth). Gan droi at drydydd amcan diplomyddiaeth gyhoeddus, gellir dadlau bod hwn yn fwy addas i lywodraethau rhanbarthol (a llywodraethau is-wladwriaethol eraill). Wrth ystyried adeiladu cydberthnasau uniongyrchol ar draws ffiniau, po agosaf y gellir cyrraedd cyswllt wyneb yn wyneb, y gorau. Nid yn unig y mae llywodraethau rhanbarthol a lleol yn gallu gweithredu'n well ar lefel agosach at ddinasyddion unigol, ond yn aml nid oes ganddynt y baich gwleidyddol sydd gan lywodraethau ar lefel cenedl-wladwriaeth.

Yn seiliedig ar amcanion diplomyddiaeth gyhoeddus a amlinellwyd gan Wang, a chan wybod pa swyddogaethau sy'n gweddu orau i lywodraethau rhanbarthol, gallwn ganfod y mathau o asedau a gweithgareddau y gellir manteisio arnynt drwy ddiplomyddiaeth gyhoeddus. O ran yr ail amcan, gall hyn gynnwys y canlynol:

- Gwerthoedd a pholisi gwleidyddol
- Diwylliant
- Treftadaeth

O ran y trydydd amcan, sy'n canolbwyntio ar adeiladu cydberthnasau, byddai ymdrechion diplomyddiaeth gyhoeddus rhanbarth yn debygol o gynnwys hyrwyddo'r canlynol:

- Addysg
- Twristiaeth
- Rhaglenni cyfnewid
- Partneriaethau busnes


Er bod llywodraethau rhanbarthol wedi'u cyfyngu i rym cymell tawel wrth ymdrechu i gyflawni amcanion rhyngwladol, mae hyn yn golygu bod ganddynt sawl dull o ymgysylltu â chynulleidfaoedd byd-eang ac adeiladu cydberthnasau ystyrlon ar draws ffiniau. Mae methodoleg ein mynegai cymell tawel rhanbarthol – a amlinellir yn yr adran ganlynol – yn ystyried yr uchod ac yn darparu fframwaith er mwyn dadansoddi adnoddau cymell tawel deg rhanbarth gwahanol.

# 3. METHODOLEG

## Gan mai cymell tawel yw eu hunig ddull o ddylanwadu, bydd y llywodraethau rhanbarthol hynny sydd fwyaf medrus yn eu defnydd ohono mewn sefyllfa well i ddenu buddsoddiad, twristiaid, myfyrwyr, a thalent, ac i ddarparu arweinyddiaeth ar faterion byd-eang megis cynaliadwyedd amgylcheddol neu reolau a rheoliadau trawswladol.

Mae llwyddo yn y meysydd hyn yn arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion a phreswylwyr rhanbarth. Ac fel y dadleuwyd uchod, cam cyntaf y broses o drosi grym cymell tawel yn ganlyniad llwyddiannus yw nodi'r adnoddau fydd yn effeithio ar y targed(au) dan sylw. Mae model Joseph Nye ar gyfer trosi grym cymell tawel (a ddangoswyd yn Ffigur 1) yn adlewyrchu hyn, gan osod adnoddau fel cam cyntaf i'r broses.

**Proses Trosi Grym Cymell Tawel**




Ffynhonnell: Nye, J. (2011) The Future of Power

Fel y nodwyd uchod, diben yr adroddiad ymchwil hwn yw mynd i'r afael â'r cam cyntaf hwn yn y broses o drosi grym cymell tawel, gan lunio fframwaith ar gyfer mesur grym cymell tawel rhanbarthau. Y fethodoleg fwyaf trwyadl a sefydledig ar gyfer mesur grym cymell tawel – er ei bod ar lefel cenedl-wladwriaeth – yw adroddiad *The Soft Power 30*, a gaiff ei gynhyrchu'n flynyddol gan Portland, y cwmni cyfathrebu ac ymgynghori strategol, mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Califfornia.

Pan lansiodd Portland brosiect ymchwil *The Soft Power 30* yn 2015, gwnaeth hynny gan adeiladu ar waith blaenorol a gynhaliwyd yn yr Institute for Government,[19] melin drafod yn Llundain. Roedd y ddau brosiect ymchwil yn ceisio mynd i'r afael â'r cam hanfodol cyntaf hwnnw wrth ddefnyddio grym cymell tawel: mesur. Lluniwyd y ddwy astudiaeth â chenedl-wladwriaeth wrth wraidd yr ymarferiad. Mae'r ymchwil sy'n sylfaen i'r adroddiad hwn yn defnyddio fframwaith *The Soft Power 30* fel man cychwyn, ond yn ei ddiwygio er mwyn dadansoddi rhanbarthau is-wladwriaethol. [20]

Yn debyg i *The Soft Power 30*, mae'r mynegai a luniwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn cyfuno data gwrthrychol a goddrychol, er mwyn asesu a chymharu grym cymell tawel deg rhanbarth gwahanol. Ar gyfer pob rhanbarth, mae'r fframwaith yn cynnwys mesuryddion gwrthrychol a goddrychol ar werthoedd a sefydliadau gwleidyddol y rhanbarth; eu hallbwn a'u hapêl diwylliannol; cryfder eu rhwydweithiau rhyngwladol; eu systemau addysg; eu capasiti ar gyfer mentergarwch, arloesedd, a chyfeillgarwch busnes; a'u hisadeiledd digidol ac ymgysylltiad ar-lein gyda'r byd. Mae'r adrannau isod yn darparu rhagor o fanylion ar y data gwrthrychol a goddrychol sy'n rhan o'r mynegai.

### *Data gwrthrychol*

Daw'r data gwrthrychol o ystod o ffynonellau, a chaiff ei strwythuro i chwe chategori, gyda phob un yn

gweithredu fel is-fynegai i bob pwrpas, a sgôr unigol i bob rhanbarth. Dyma'r chwe is-fynegai: Llywodraeth, Diwylliant, Ymgysylltu Byd-eang, Addysg, Digidol a Menter. Diwygiwyd y fframwaith categorïau o fynegai *The Soft Power 30*, sydd wedi'i adeiladu ar arolwg o lenyddiaeth academaidd ar gymell tawel sy'n bodoli eisoes.

Mae'r is-fynegai Llywodraeth wedi'i lunio i asesu gwerthoedd gwleidyddol rhanbarth, ei sefydliadau cyhoeddus, lefel ei awdurdod datganoledig, a phrif ganlyniadau polisi cyhoeddus. Mae'n mesur i ba raddau y mae gan wlad fodel llywodraethu atyniadol a ph'un a all gyflawni canlyniadau da i'w dinasyddion.

Mae cyrhaeddiad a maint allbwn diwylliannol yn bwysig wrth feithrin grym cymell tawel, ond nid yw cynhyrchu ar raddfa eang o reidrwydd yn arwain at ddylanwad ar raddfa eang. Mae'r is-fynegai Diwylliant yn cynnwys mesuryddion megis nifer o dwristiaid rhyngwladol sy'n dod i'r rhanbarth bob blwyddyn, nifer yr amgueddfeydd, a hyd yn oed diwylliant chwaraeon y rhanbarth.

Nod yr is-fynegai Ymgysylltu yw mesur ôl troed rhyngwladol rhanbarth, a'i gyfraniad at arweinyddiaeth ryngwladol ar faterion megis yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Mewn gwirionedd, mae'n ystyried gallu rhanbarthau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd rhyngwladol, adeiladu cysylltiadau rhyngwladol ystyrlon, a chydweithio â phartneriaid byd-eang.

Mae gallu rhanbarth i ddenu myfyrwyr o dramor, neu hwyluso cyfnewidfeydd, yn ddull pwerus mewn diplomyddiaeth gyhoeddus. Dangoswyd bod gan gyfnewidfeydd myfyrwyr sgil-effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol wrth i fyfyrwyr sy'n dychwelyd eirioli ar ran y wlad roeddent yn astudio ynddi.[21] Nod yr is-fynegai Addysg yw ystyried y ffenomenon hon ynghyd ag ansawdd prifysgolion rhanbarthau a pherfformiad cyffredinol eu systemau addysg.

Nid yw'r is-fynegai Menter yn fesurydd pŵer nac allbwn economaidd. Yn hytrach, nod yr is-fynegai hwn yw ystyried pa mor atyniadol yw model economaidd rhanbarth o ran pa mor gystadleuol ydyw, ei gapasiti ar gyfer arloesedd, a'i allu i feithrin mentergarwch a masnach.

Mae'r is-fynegai Digidol yn dod â chyfansoddyn newydd a phwysig i fesuriad grym cymell tawel. Anodd fyddai gor-ddweud y ffyrdd y mae technoleg wedi trawsnewid bywyd bob dydd dros y ddau ddegawd diwethaf. Nod yr is-fynegai hwn yw canfod i ba raddau y mae rhanbarthau wedi gwneud y mwyaf o dechnoleg, pa mor dda maen nhw wedi'u cysylltu â'r byd digidol, a'u defnydd o ymgysylltiad digidol drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

*Data goddrychol*

Un o'r heriau mwyaf wrth fesur grym cymell tawel yn gywir yw ei natur goddrychol cynhenid. Er mwyn gwneud yn iawn am hyn, mae ein mynegai cymell tawel rhanbarthol yn defnyddio data arolwg rhyngwladol sydd newydd ei gomisiynu. Wrth lunio cydran arolwg yr astudiaeth, defnyddiwyd fframwaith The Soft Power 30 eto fel man cychwyn. Fodd bynnag, gwnaed addasiadau i sicrhau bod yr arolygon yn berthnasol i ranbarthau, yn hytrach na chenedl-wladwriaethau. Holwyd cyfanswm o 5,000 o bobl ar draws deg gwlad, i gynhyrchu'r data goddrychol a ddefnyddiwyd er mwyn cyfrifo'r mynegai. Dewiswyd y deg gwlad a arolygwyd am ddau reswm. Yn gyntaf, gan eu bod wedi'u datgan fel marchnadoedd â blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru; ac yn ail, gan eu bod yn cynrychioli amrediad rhesymol o farn ar draws y byd. Y deg gwlad a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth oedd:

- Canada
- Tsieina
- Yr Emiraethau Arabaidd Unedig
- Ffrainc
- Yr Almaen
- India
- Iwerddon
- Siapan
- Qatar
- Unol Daleithiau America


Mae'r arolwg yn darparu data ar ganfyddiadau rhyngwladol yn seiliedig ar y 'pwyntiau cyffwrdd' mwyaf cyffredin lle mae pobl yn debygol o ymwneud â rhanbarth y tu allan i'w gwlad. Mae'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer elfen arolwg y mynegai fel a ganlyn:

- Bwyd
- Cyfeillgarwch tuag at dwristiaid
- Cynhyrchion moethus
- Gwerthoedd gwleidyddol
- Lle da i fyw
- Diwylliant
- Chwaraeon

Yn ogystal â'r saith mesurydd uchod, cafodd gwestiwn am ba mor ffafriol roeddent yn ei deimlo tuag at ranbarth wedi ei gynnwys yn yr arolwg. Defnyddiwyd y cwestiwn hwn er mwyn datblygu model atchweliad, gyda 'ffafrioldeb cyffredinol' fel newidyn dibynadwy, a'r cwestiynau a oedd yn weddill yn newidion annibynnol. Cynhaliwyd y dadansoddiad atchweliad i bennu i ba raddau roedd y saith categori yn rhagfynegi pa mor ffafriol y byddai'r ymatebwyr yn ei deimlo tuag at wlad yn y set data. Mae'r model atchweliad yn caniatáu pwysoli pob un o'r mesuryddion goddrychol yn briodol wrth gyfrifo'r mynegai'n derfynol.

Canfu'r model atchweliad bod y gwahanol gategorïau yn cario'r pwysoliadau canlynol fel prif yrwyr ffafrioldeb cyffredinol:

## FFRAMWAITH CYMELL TAWEL RHANBARTHOL






| | |
|---|---|
| • Cyfeillgarwch tuag at dwristiaid | 25.1% |
| • Lle da i fyw | 18.8% |
| • Gwerthoedd gwleidyddol | 16.2% |
| • Cynhyrchion moethus | 15.2% |
| • Bwyd | 14.5% |
| • Diwylliant | 5.7% |
| • Chwaraeon | 4.5% |

*Rhanbarthau a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth*

Dewiswyd y deg rhanbarth ar gyfer y mynegai yn ôl bras feini prawf, yn hytrach na fformiwla lem. Cymru a ddewiswyd gyntaf. Gwnaed hyn gan fod yr astudiaeth wedi'i chomisiynu gan British Council Cymru, gyda'r prif ffocws ar Gymru a grym cymell tawel Cymru. Yna dewiswyd rhanbarthau eraill yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau, gan gynnwys lefel awdurdod datganoledig y llywodraeth, maint cynnyrch domestig gros, maint y boblogaeth, lledaeniad daearyddol, lefel datblygiad, a hanes uchelgais a gwaith ymgysylltu rhyngwladol. Cynhyrchodd canlyniadau'r broses ddewis set derfynol o ddeg rhanbarth:

- Catalwnia, Sbaen
- Corsica, Ffrainc
- Fflandrys, Gwlad Belg
- Hokkaido, Siapan
- Jeju, De Corea
- Gogledd Iwerddon, DU
- Puerto Rico, Unol Daleithiau America
- Québec, Canada
- Yr Alban, DU
- Cymru, DU

*Heriau a diffygion*

Nid yw'r broses o lunio mynegai cymell tawel sy'n symud oddi wrth y genedl-wladwriaeth fel y brif egwyddor drefniadol, i un sy'n ei disodli â llywodraethau is-wladwriaethol, yn un heb ei heriau. Wrth lunio'r mynegai, bu i'r tîm ymchwil wynebu nifer o heriau y dylid eu nodi. Yr her gyntaf oedd diffinio, hynny yw, beth sy'n gwneud rhanbarth? Byddai ymchwil yn y dyfodol ar gymell tawel rhanbarthol neu baraddiplomyddiaeth yn ddefnyddiol er mwyn sefydlu teipoleg glir o ranbarthau a dinasoedd, gan ddarparu strwythur sy'n dosbarthu llywodraethau rhanbarthol yn unol â'u lefel o ymreolaeth a gweithgarwch rhyngwladol.

Yr ail her, sy'n sicr yn gysylltiedig â'r gyntaf, yw'r mater o gymharu rhanbarthau ar draws ffiniau rhyngwladol. Mae gan bob llywodraeth ar lefel cenedl-wladwriaeth ei chyfansoddiad neu ei chonfensiynau cyfreithiol ei hun, sydd wedi arwain at gydberthynas unigryw rhwng llywodraethau canolog a rhanbarthol. Er enghraifft, nid oes modd cymharu Califfornia yn union â thalaith Hainan yn Tsieina, neu Lombardy yn yr Eidal. Er y gwahaniaethau mawr yn y set o 195 o

genedl-wladwriaethau amrywiol o amgylch y byd, mae set glir o briodoleddau, cyfreithiau, normau a chonfensiynau yn dal i fod sy'n llywodraethu beth ydynt a beth allant ei wneud, ac felly mae modd eu cymharu'n fras. Ni ellir dweud yr un fath yn union ar gyfer rhanbarthau, sy'n golygu bod eu cymharu'n uniongyrchol yn fwy heriol.

Y drydedd her yw argaeledd data. Mae'r her hon yn sgil-gynnyrch i'r ddwy gyntaf mewn gwirionedd. Mae gwahanol ranbarthau yn dilyn safonau ac arferion gwahanol ar gyfer casglu a chyhoeddi data. Er i broses casglu data yr astudiaeth hon gasglu set gadarn o fesuryddion y gellir eu cymharu, mae'n sicr bod elfennau a fyddai wedi bod yn addas i'w cynnwys yn yr astudiaeth, ond nad oedd data addas yn bodoli ar draws deg rhanbarth y mynegai. Ar yr un pryd, nid oes cymaint o ffynonellau data cyfanredol trydydd parti dibynadwy ar gyfer rhanbarthau o gymharu â chenedl-wladwriaethau. Roedd rhaid casglu llawer o'r data sydd wedi'i gynnwys yn y mynegai o sawl ffynhonnell, yn aml o ddeg ffynhonnell wahanol ar gyfer un mesurydd. Ar adegau, lle bu'n briodol, defnyddiwyd data lefel cenedl-wladwriaeth ar gyfer rhai mesuryddion. Ceisiwyd osgoi hyn gymaint â phosibl, ond ar gyfer rhai mesuryddion data, roedd defnyddio data lefel cenedl-wladwriaeth yn synhwyrol.

Mae'r bedwaredd her fethodolegol, a'r her olaf, yn ymwneud ag ochr oddrychol y mynegai. O ran yr arolwg rhyngwladol, mae cenedl-wladwriaethau yn dueddol o fod â lefel uwch o ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae lefel yr ymwybyddiaeth yn amrywio ar draws cenedl-wladwriaethau, ond mae gan lawer o genedl-wladwriaethau fantais annatod dros ranbarthau o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd.  Yn ôl ein harolwg, ar gyfartaledd roedd traean o'r ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt lefel uchel o wybodaeth am ranbarth penodol, ac roedd chwarter yr ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt 'rywfaint o wybodaeth' am ranbarth penodol. Mae'r tabl isod yn nodi canran yr ymatebwyr a nododd fod ganddynt lefel uchel o wybodaeth ar gyfer y rhanbarthau yn y mynegai.

Mae lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd yn amrywio o ranbarth i ranbarth, ond y gwir yw bod rhanbarthau yn dueddol o ddechrau ar lefel is o wybodaeth gweithredu wrth geisio ymgysylltu â chyhoedd rhyngwladol. Mae hyn yn her ac yn gyfle. Er y gall fod yn anodd gwneud cynnydd i ddechrau, mae'n bosibl bod rhanbarth yn hollol ddieithr i rai cynulleidfaoedd rhyngwladol; sy'n golygu bod canfyddiadau heb eu ffurfio i raddau helaeth ac yn debygol o fod yn dylanwadu arnynt.

| Rhanbarth | Ymatebwyr Gwybodus Lawn |
|---|---|
| Jeju | 39.7% |
| Hokkaido | 36.7% |
| Catalwnia | 33.3% |
| Gogledd Iwerddon | 31.9% |
| Yr Alban | 31.8% |
| Québec | 31.2% |
| Cymru | 30.6% |
| Corsica | 29.9% |
| Fflandrys | 29.4% |
| Puerto Rico | 26.2% |

Er bod yr heriau uchod yn sicr wedi peri bod mesur grym cymell tawel rhanbarthol yn anoddach (yn hytrach nag ar lefel cenedl-wladwriaeth), rydym yn parhau i deimlo bod y mynegai a grëwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnig safle cychwynnol cryf ar gyfer methodoleg newydd o fesur adnoddau cymell tawel rhanbarthau. Rydym yn gobeithio y bydd y canlyniadau'n ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'r llunwyr polisi mewn llywodraethau rhanbarthol sydd â'r dasg o ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhyngwladol. At hynny, rydym yn gobeithio y bydd yn ysbrydoli rhagor o gydweithio a rhannu arferion gorau rhwng llywodraethau rhanbarthol. Yn olaf, dylai'r mynegai weithredu fel galwad dros safonau ac arferion gwell wrth gasglu data sy'n berthnasol yn rhyngwladol ar lefel rhanbarthol.

# 4. CANLYNIADAU

## Ar ôl casglu'r holl ddata, ei fwydo trwy broses normaleiddio, a chyfrifo'r sgoriau terfynol ar gyfer y mynegai, Québec sy'n cyrraedd y brig o ran grym cymell tawel rhanbarthol.

Mae Québec yn perfformio'n dda ar draws y mesuryddion gwrthrychol a goddrychol. Mae'n dod i frig yr is-fynegai Llywodraeth ac yn ail yn yr is-fynegeion Addysg a Menter, gan wneud iawn am berfformiad syndod o wael yn yr is-fynegai Digidol. Gellir priodoli safle cyntaf Québec yn yr is-fynegai Llywodraeth i raddau helaeth i'w sgoriau uchel ym meysydd datblygiad pobl, cydraddoldeb a hawliau dynol.

Ategir hyn â chanfyddiadau cadarnhaol o'i gwerthoedd gwleidyddol, gan gael sgoriau uchel gan bob gwlad yn yr arolwg; camp nodedig o ystyried yr amrywiaeth yn athroniaeth a gwerthoedd gwleidyddol y gwledydd a holwyd. Mae Québec yn enwog am ei heconomi gwybodaeth ffyniannus, ac yn un o'r rhai sy'n gwario'r mwyaf yn y byd ym maes Ymchwil a Datblygu. Daw effaith hyn yn amlwg drwy anrhydeddau Nobel niferus ym maes gwyddoniaeth, ac economi sydd â thros filiwn o bobl wedi'u cyflogi yn y sector gwyddoniaeth a technoleg.

Ymhlith y deg rhanbarth, yr Alban sydd fwyaf cyson o ran sgoriau da ar draws yr is-fynegeion gwrthrychol: daw i'r brig ym meysydd Addysg, Digidol a Menter, ac mae ymhlith y pump uchaf ym meysydd Ymgysylltu, Diwylliant a Llywodraeth.

Fodd bynnag, derbyniodd sgoriau is yn yr arolwg, gan arwain at ddod yn ail ar y cyfan.

### CANLYNIADAU CYFFREDINOL

| SAFLE | RHANBARTH | SGÔR CYMELL TAWEL |
|---|---|---|
| 1 | QUÉBEC | 65.75% |
| 2 | YR ALBAN | 62.23% |
| 3 | FFLANDRYS | 56.44% |
| 4 | CATALWNIA | 54.86% |
| 5 | HOKKAIDO | 52.52% |
| 6 | CYMRU | 48.62% |
| 7 | CORSICA | 42.70% |
| 8 | GOGLEDD IWERDDON | 35.32% |
| 9 | JEJU | 31.61% |
| 10 | PUERTO RICO | 27.81% |

Yn dilyn ymdrechion i ddatganoli a'r refferendwm annibyniaeth diweddar, mae gan yr Alban hunaniaeth fwy annibynnol o gymharu â'i chymheiriaid Cymru a Gogledd Iwerddon. Anghymesur fyddai'r ffordd orau o ddisgrifio setliad datganoli 1997 rhwng y Deyrnas Unedig, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rhoddwyd mwy o ymreolaeth i'r Alban gyda datganoli gweithredol, ond datganoli gweinyddol a roddwyd i Gymru a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, er gwaethaf gwleidyddiaeth gythryblus refferendwm annibyniaeth 2014, mae'r sylw helaeth yn y wasg wedi caniatáu iddi siapio hunaniaeth ranbarthol amlwg ym maes materion byd-eang, gyda chefnogaeth ystod eang o asedau cymell tawel gan gynnwys ei sefydliadau addysg mawr eu bri, ecosystem atyniadol ar gyfer menter, traddodiadau diwylliannol amlwg, a gwyliau sy'n adnabyddus ar draws y byd.

Mae Fflandrys yn perfformio'n dda, a daw yn y trydydd safle yn y mynegai yn gyffredinol. Perfformiodd Fflandrys yn arbennig o dda ym mwyafrif yr is-fynegeion data gwrthrychol, ond ni wnaeth gystal yn yr arolwg. Mae'n ddiddorol bod gan Fflandrys fwlch rhwng yr adnoddau cymell tawel a aseswyd yn wrthrychol a barn y cyhoedd rhyngwladol. Mae'n anodd gwybod yr union reswm dros y bwlch hwn. Gan edrych ar ddata *The Soft Power 30*, mae Gwlad Belg yn profi tuedd tebyg. Mae safle cyffredinol Gwlad Belg yng nghanlyniadau *The Soft Power 30* yn 2015, 2016 a 2017 yn well na'i safle yn nata'r arolwg. Mae'n bosibl bod problem o ran torri drwodd ar gyfer asedau cymell tawel Gwlad Belg. Mae'n amlwg drwy asesiad gwrthrychol eu bod yn bodoli ar lawr gwlad, ond mae'n bosibl nad ydynt yn trosi i ganfyddiadau cyhoedd y byd o Wlad Belg i'r un graddau, a Fflandrys hefyd.

Yn groes i Québec, yr Alban a Fflandrys, sydd â'u cryfderau cymell tawel ym meysydd Llywodraeth, Addysg a Menter, mae cryfderau cymell tawel Catalwnia yn ei hasedau diwylliannol a'i hymdrechion ym maes cyrhaeddiad rhyngwladol. Mae gan Gatalwnia hen hanes o amlygu'i hun fel lle ar wahân i weddill Sbaen. Mae hyn wedi bod yn amlwg drwy ei hiaith, ei diwylliant a hyd yn oed ei gwleidyddiaeth. Mae Catalwnia, sy'n gartref i gyfoeth o amgueddfeydd celf, cofadeiliau a Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, yn ogystal â'i gwyliau bywiog, yn derbyn ei sgôr uchaf yn yr is-fynegai Diwylliant. Fodd bynnag, mae ei pherfformiad gwael yn yr is-fynegeion Addysg a Menter yn ei gosod yn y pedwerydd safle. Fel y byddai nifer o eiriolwyr dros annibyniaeth i Gatalwnia yn ei ddadlau, mae'r rhanbarth yn gwneud yn well na Sbaen mewn nifer o ddangosyddion economaidd megis cyflogaeth, cynnyrch domestig gros fesul pen, a gwariant ymchwil a datblygu. Fel mae pob llywodraeth ranbarthol yn ei wybod, mae rhai polisïau economaidd ar lefel cenedl-wladwriaeth yn anodd eu hosgoi, ac mae'n bosibl bod agweddau ar gyd-destun economaidd ar lefel cenedl-wladwriaeth yn Sbaen wedi tynnu Catalwnia i lawr.

Mae'r sgoriau cyffredinol a adroddir yn y tabl uchod yn rhoi ciplun cymharol mewn amser i ni o adnoddau cymell tawel cyfunol y deg rhanbarth sydd wedi'u cynnwys yn ein mynegai. Er mor ddiddorol yw nodi sut mae'r rhanbarthau'n cymharu â'i gilydd mewn un mesuriad mawr, ni ddylem roi gormod o ystyr i'r sgoriau cyffredinol. Wedi'r cwbl, mae'r mynegai yn mesur adnoddau cymell tawel, ac felly mae'n cyfleu'r potensial i ddylanwadu a denu, yn hytrach na mesuriad llwyr o ddylanwad.

Mae gwerth gwirioneddol y mynegai i'w weld wrth ddadansoddi perfformiad y rhanbarthau yn ôl pob is-fynegai, ac asesu cryfderau a gwendidau. At hynny, mae'r arolwg rhyngwladol yn cynnig cip ar ba elfennau o wlad sy'n atyniadol ym marn gyfunol y cyhoedd rhyngwladol. Mae'r adran ganlynol yn dadansoddi'r data gwrthrychol yn ôl is-fynegai, gan ddarparu rhywfaint yn rhagor o wybodaeth ynghylch y rheswm dros eu safleoedd.

*Ymgysylltu*

Er mai ymweliadau proffil uchel â gwladwriaethau a llofnodi cytundebau rhyngwladol sy'n dod i'r meddwl yn aml wrth ystyried ymgysylltu rhyngwladol, mae llywodraethau rhanbarthol wedi'u grymuso gan lwyfannau sydd ar gael yn gynyddol ac yn cael eu defnyddio ar gyfer paraddiplomyddiaeth. Catalwnia sydd ar frig yr

is-fynegai, gyda'r nifer uchaf o gytundebau chwaer ddinas a chonsyliaethau cyffredinol yn y rhanbarth. Mae Fflandrys yn dod y tu ôl i Gatalwnia, gyda rhwydwaith trawiadol o swyddfeydd masnach a buddsoddi rhyngwladol dramor, yr uchaf ymhlith y rhanbarthau. Québec sy'n drydydd, gyda nifer uchel o swyddfeydd masnach a buddsoddi, consyliaethau cyffredinol yn Québec, cytundebau chwaer ddinasoedd, ynghyd ag ymrwymiad cryf i gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae diffyg presenoldeb tramor Jeju, ynghyd â nifer fach o gonsyliaethau cyffredinol a chytundebau chwaer ddinasoedd yn awgrymu rhwydwaith rhyngwladol cyfyngedig, gan arwain at sgôr isel yn gyffredinol yn yr is-fynegai Ymgysylltu.

*Diwylliant*

Catalwnia sydd ar frig yr is-fynegai Diwylliant gyda pherfformiad cryf ar draws mesuryddion sy'n mesur twristiaeth, celf, ffilm, chwaraeon, a bwyd. Gyda'r nifer uchaf o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, gwyliau cerddoriaeth, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, nid yw'n syndod ei bod hefyd yn

## Y DATA GWRTHRYCHOL

| Safle | Ymgysylltu | Diwylliant | Llywodraeth | Addysg | Digidol | Menter | Arolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Catalwnia | Catalwnia | Québec | Yr Alban | Yr Alban | Yr Alban | Hokkaido |
| 2 | Fflandrys | Yr Alban | Fflandrys | Québec | Jeju | Québec | Québec |
| 3 | Québec | Fflandrys | Yr Alban | Puerto Rico | Cymru | Fflandrys | Corsica |
| 4 | Yr Alban | Québec | Gogledd Iwerddon | Fflandrys | Gogledd Iwerddon | Cymru | Catalwnia |
| 5 | Cymru | Cymru | Cymru | Hokkaido | Hokkaido | Gogledd Iwerddon | Fflandrys |
| 6 | Corsica | Puerto Rico | Catalwnia | Jeju | Catalwnia | Hokkaido | Yr Alban |
| 7 | Gogledd Iwerddon | Hokkaido | Jeju | Cymru | Corsica | Jeju | Cymru |
| 8 | Puerto Rico | Gogledd Iwerddon | Corsica | Catalwnia | Fflandrys | Puerto Rico | Gogledd Iwerddon |
| 9 | Hokkaido | Corsica | Hokkaido | Corsica Rico | Puerto | Catalwnia | Jeju |
| 10 | Jeju | Jeju | Puerto Rico | Gogledd Iwerddon | Québec | Corsica | Puerto Rico |

denu'r nifer uchaf o dwristiaid ymhlith y rhanbarthau gyda'i hasedau diwylliannol amrywiol. Yr Alban sy'n ail, gyda'r nifer uchaf o wyliau ffilm a phapurau newydd, ac mae Fflandrys yn drydydd agos gyda'r gwariant cyhoeddus uchaf ar ddiwylliant, ac yn curo pob rhanbarth arall o ran nifer y bwytai sydd â seren Michelin a thimau chwaraeon proffesiynol. Er bod ganddi ddiwydiant twristiaeth gweddol gryf, mae perfformiad gwael cyffredinol Jeju yn yr is-fynegai Diwylliant yn bennaf o ganlyniad i nifer isel y safleoedd a'r digwyddiadau diwylliannol ar draws y celfyddydau, cerddoriaeth a chwaraeon.

*Llywodraeth*

Yn sgil trafodaethau am ddatganoli ac annibyniaeth ar hyn o bryd, is-fynegai'r Llywodraeth yw'r mwyaf diddorol o bosibl. Un o'r mesuryddion a ddefnyddiwyd yw'r Mynegai Awdurdodau Rhanbarthol,[22] sy'n edrych ar ffactorau megis dyfnder sefydliadol, cwmpas polisi, ymreolaeth gyllidol, a rheolaeth ddeddfwriaethol i bennu faint o awdurdod ffurfiol sydd gan ranbarth. Québec, Fflandrys a'r Alban, a sgoriodd yn arbennig o dda yn y mynegai awdurdodau rhanbarthol, yw'r tri uchaf yn yr is-fynegai Llywodraeth, yn y drefn honno. Québec sydd ar y brig, wedi'i chefnogi â pherfformiad cyson gryf ar draws mesuryddion democratiaeth, datblygiad pobl, rhyddid sifil a chydraddoldeb, ac mae'n curo'r lleill o fwy nag 20 o bwyntiau. Mae cyfradd dynladdiadau uchel Puerto Rico, ynghyd â pherfformiad gwael o ran cydraddoldeb rhywiol ac anghydraddoldeb economaidd, oll yn cyfrannu at safle olaf y rhanbarth.

*Addysg*

Nid yw'n syndod bod yr Alban a Québec yn arwain yn yr is-fynegai Addysg. Mae'r Alban a Québec ill dwy yn denu dros 50,000 o fyfyrwyr tramor bob blwyddyn, sy'n fwy na dwbl unrhyw ranbarth arall ar y rhestr. Yr Alban, sydd ar y blaen yn yr is-fynegai Addysg, sydd â'r nifer uchaf o brifysgolion gorau'r byd ymhlith y rhanbarthau, a hi sy'n gwario fwyaf ar addysg. Mae Québec yn gyfforddus yn yr ail safle yn yr is-fynegai. Er bod gan Québec lai o brifysgolion gorau'r byd na'r Alban, Québec sy'n denu'r nifer uchaf o fyfyrwyr tramor o blith y rhanbarthau, ac mae'n perfformio'n dda yn sgoriau cyfartalog y rhaglen ar gyfer asesu myfyrwyr rhyngwladol (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Er iddi ddod ar frig sgoriau cyfartalog PISA OECD (sy'n adlewyrchiad o'r system addysg lem), caiff Hokkaido ei gadael i lawr gan nifer y myfyrwyr tramor, effaith posibl y diffyg rhaglenni addysg drwy'r Saesneg, ac felly daw yn y pumed safle yn yr is-fynegai.

*Digidol*

Mae'r is-fynegai Digidol, sy'n mesur i ba raddau y mae rhanbarthau wedi'u cysylltu'n ddigidol, yn edrych ar fesuryddion megis ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol, llywodraethu digidol, ynghyd â defnydd o'r we. Yr Alban sy'n dod ar frig yr is-fynegai Digidol, gyda pherfformiadau cryf o ran ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein y llywodraeth. Ei hawdurdod twristiaeth sydd â'r nifer uchaf o ddilynwyr Facebook a Twitter, ac mae'n perfformio'n dda o ran gwasanaethau ar-lein y llywodraeth ac e-gyfranogiad. Mae Jeju'n dod yn ail agos, a dyma ei pherfformiad gorau ar draws yr is-fynegeion, o achos cyswllt digidol eang, sydd wedi'i adlewyrchu yn nifer uchel y defnyddwyr We, y gweinyddion a lled band. Cymru sy'n drydydd, yn perfformio'n debyg i'r Alban yn llawer o'r mesuryddion, ond ychydig ar ei hôl hi o ran ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn olaf, mae presenoldeb cyfyngedig Québec ar y cyfryngau cymdeithasol, a sgoriau is na'r cyfartaledd o ran defnydd o'r we, yn arwain at berfformiad gwael ar y cyfan yn yr is-fynegai Digidol.

*Menter*

Mae gallu rhanbarth i feithrin masnach a buddsoddiad yn ased cymell tawel hanfodol, a nod yr is-fynegai Menter yw ceisio mynd i'r afael â hyn drwy edrych ar lefelau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor, gweithgarwch busnesau bach a chanolig, ynghyd â mesuryddion yn ymwneud â chystadleurwydd, arloesedd a thryloywder. Yr Alban sy'n dod i'r brig, gyda'r lefel uchaf o Fuddsoddi

Uniongyrchol o Dramor o bell, a'r mwyaf ond un o fusnesau bach a chanolig. Mae perfformiadau cryf o ran gwario ar ymchwil a datblygiad, ynghyd ag amgylchedd buddsoddi cyfeillgar, wedi caniatáu iddi ffynnu fel canolbwynt i fusnesau. Adlewyrchir hyn yn nifer y busnesau rhyngwladol sydd â phrif swyddfeydd yno. Québec sy'n ail yn yr is-fynegai Menter, gyda nifer debyg o fusnesau rhyngwladol, a chyda nifer ei busnesau bach a chanolig yn ffynnu ynghyd â gweithgarwch ymchwil a datblygu ffyniannus. Mae Hokkaido yn gwneud yn well na rhanbarthau eraill o ran mesuryddion menter, ond nid yw cystal o ran gweithgarwch busnesau bach a chanolig ac allforion, ac felly daw yn y chweched safle. Corsica sydd olaf, o achos lefelau isel o weithgarwch busnesau bach a chanolig, ynghyd â lefelau gweddol uchel o ddiweithdra. Mae Cymru hefyd yn perfformio'n dda yn yr is-fynegai Menter, o ganlyniad i lefelau cymharol uchel o allforion, busnesau bach a chanolig, a buddsoddi uniongyrchol o dramor.

## DATA'R AROLWG

Mae Hokkaido yn gwneud yn well na'r holl ranbarthau eraill yn yr arolwg. Datgelodd data'r arolwg fod canfyddiadau pobl o'i nwyddau traul a moethus, ynghyd â'i diwylliant, yn arbennig o gryf. Efallai nad yw hyn yn syndod; mae Siapan yn y pedwerydd safle yn nghyfanswm sgôr yr arolwg *The Soft Power 30* 2017, ac mae llawer o'i henw da fel cyrchfan aeafol yn Asia wedi'i briodoli i Hokkaido, sy'n enwog am ei lleoedd sgïo, ffynhonnau poeth, a'r ŵyl Sapporo Snow. Mae Hokkaido yn sgorio'n gyson dda ar draws categorïau'r arolwg, ac mae yn y tri uchaf yn saith o'r wyth categori. Mae Hokkaido hefyd yn gwneud llawer gwell na'r unig ranbarth arall yn Asia sydd ar y rhestr, Jeju. Fodd bynnag, o ystyried mai Tsieina yw'r brif wlad y cynhaliwyd yr arolwg ynddi yn Nwyrain Asia, mae Hokkaido yn cael ei sgoriau uchaf o'r tu allan i'r rhanbarth uniongyrchol, a hynny gan Qatar a Ffrainc.

Québec sy'n ail yn yr arolwg, gyda hwb gan ei sgoriau gorau o ran cyfeillgarwch, gwerthoedd gwleidyddol a sut le yw i fyw. Fel yr unig ranbarth yng Ngogledd America sydd â mwyafrif yn siarad Ffrangeg, ac yn gartref i'r ddinas fwyaf ond un yn y byd sy'n siarad Ffrangeg ar ôl Paris, mae Québec yn ffefryn ymhlith cymunedau sy'n siarad Ffrangeg. Yn wir, mae sgoriau uchaf Ffrainc yn yr arolwg yn mynd i Québec mewn pedwar categori. Fodd bynnag, nid yw poblogrwydd Québec wedi'i gyfyngu i gymunedau sy'n siarad Ffrangeg. Fel cymuned gynyddol ddwyieithog, a chydag argaeledd gwasanaethau sector cyhoeddus megis iechyd ac addysg yn Saesneg, mae Québec wedi dod yn gyrchfan boblogaidd i fewnfudwyr yn y degawd diwethaf. At hynny, mae Montrèal – sef dinas fwyaf Québec – yn y 12fed safle fel y ddinas orau i fyw ynddi gan Uned Wybodaeth yr Economist, a'r ddinas orau yn y byd i fod yn fyfyriwr prifysgol yn ôl Rhestrau Prifysgolion y Byd QS, sy'n cyfrannu heb amheuaeth at atyniad Québec fel lleoliad i ymweld ag ef er mwyn gweithio ac astudio.

Er i Corsica gael sgoriau eithaf gwael ar draws yr is-fynegeion gwrthrychol, daw'n drydydd yn yr arolwg, sy'n ei rhoi ar y blaen i Ogledd Iwerddon, Jeju a Puerto Rico yn y sgoriau cyffredinol. Mae yn y tri uchaf ym mhob categori yn yr arolwg heblaw cyfeillgarwch. Mae'n bosibl bod Corsica wedi dod i'r brig yn yr arolwg bwyd o ganlyniad i'w chyfuniad unigryw o goginio Eidalaidd a Ffrengig, wedi'i hybu gan ei diwydiant allforio gwin a chaws. Mae'n cael y sgoriau uchaf ar draws categorïau'r arolwg gan Tsieina, India a'r Dwyrain Canol, ond mae'n llai poblogaidd yn y Gorllewin, gan sgorio'n is na'r sgoriau cyfartalog ymhlith gwledydd Ewrop a Gogledd America.

Mae Catalwnia'n agos y tu ôl i Gorsica. Mae Catalwnia, sy'n enwog am ei chelf a'i phensaernïaeth, ynghyd â'i thîm pêl-droed byd-enwog FC Barcelona, yn dod i frig yr arolwg ar gyfer chwaraeon, ac yn ail ar gyfer diwylliant. Hokkaido, Québec a Corsica yw'r tair uchaf ym mwyafrif categorïau'r arolwg, ond Catalwnia a Chymru yw'r rhanbarthau sy'n gwneud yr argraff orau yn y categori chwaraeon. Er bod chwaraeon Catalwnia yn cael hwb enfawr gan boblogrwydd byd-eang FC Barcelona, mae gan Gymru dîm an-nibynnol mewn nifer o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, sy'n caniatáu iddi greu enw iddi hi ei hun ym myd chwaraeon. Mae hyn amlycaf yng Nghwpan Rygbi'r Byd a chystadlaethau pêl-droed rhyngwladol, ac mae hyn wedi bod o fudd iddi yn yr arolwg rhyngwladol.

## DADANSODDIAD O GANLYNIADAU'R AROLWG

| | Ffafrioldeb | | Bwyd | | Cyfeillgarwch | | Nwyddau moethus |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Hokkaido | 1 | Corsica | 1 | Québec | 1 | Hokkaido |
| 2 | Québec | 2 | Catalwnia | 2 | Hokkaido | 2 | Corsica |
| 3 | Corsica | 3 | Hokkaido | 3 | Catalwnia | 3 | Fflandrys |
| 4 | Fflandrys | 4 | Fflandrys | 4 | Fflandrys | 4 | Québec |
| 5 | Catalwnia | 5 | Québec | 5 | Yr Alban | 5 | Catalwnia |
| 6 | Yr Alban | 6 | Jeju | 6 | Corsica | 6 | Cymru |
| 7 | Cymru | 7 | Puerto Rico | 7 | Cymru | 7 | Yr Alban |
| 8 | Gogledd Iwerddon | 8 | Yr Alban | 8 | Gogledd Iwerddon | 8 | Jeju |
| 9 | Jeju | 9 | Cymru | 9 | Jeju | 9 | Gogledd Iwerddon |
| 10 | Puerto Rico | 10 | Gogledd Iwerddon | 10 | Puerto Rico | 10 | Puerto Rico |

| | Gwerthoedd gwleidyddol | | Ymweld er mwyn gweithio/astudio | | Diwylliant | | Chwaraeon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Québec | 1 | Québec | 1 | Hokkaido | 1 | Catalwnia |
| 2 | Hokkaido | 2 | Hokkaido | 2 | Catalwnia | 2 | Cymru |
| 3 | Fflandrys | 3 | Corsica | 3 | Corsica | 3 | Yr Alban |
| 4 | Corsica | 4 | Yr Alban | 4 | Yr Alban | 4 | Corsica |
| 5 | Cymru | 5 | Catalwnia | 5 | Québec | 5 | Québec |
| 6 | Yr Alban | 6 | Cymru | 6 | Cymru | 6 | Gogledd Iwerddon |
| 7 | Catalwnia | 7 | Fflandrys | 7 | Fflandrys | 7 | Hokkaido |
| 8 | Gogledd Iwerddon | 8 | Gogledd Iwerddon | 8 | Gogledd Iwerddon | 8 | Fflandrys |
| 9 | Jeju | 9 | Jeju | 9 | Jeju | 9 | Jeju |
| 10 | Puerto Rico | 10 | Puerto Rico | 10 | Puerto Rico | 10 | Puerto Rico |

# 5. MANYLU AR GYMRU

Mae Cymru yn y chweched safle ar y cyfan o'r deg rhanbarth yn y mynegai. O gymharu â'i chymdogion ym Mhrydain, mae hi bedwar safle y tu ôl i'r Alban,a dau safle o flaen Gogledd Iwerddon. Mae asedau cymell tawel mwyaf Cymru ym meysydd Digidol a Menter, a'r meysydd amlycaf i'w gwella yw Addysg a'r Arolwg.

## DADANSODDIAD O DDATA GWRTHRYCHOL


*Digidol*

Mae Cymru yn y trydydd safle yn yr is-fynegai Digidol, sy'n drawiadol. Gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn chwarae rôl allweddol o ran cydlynu cysylltiad digidol a symudol ar draws gwledydd Prydain, efallai nad yw'n syndod bod yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cyrraedd y pump uchaf yn yr is-fynegai Digidol. Mae gwasanaethau ar-lein y llywodraeth yn flaengar, ac mae e-gyfranogiad yn uchel ar draws Cymru a gwledydd Prydain. Mae defnydd o'r we yn eang yng Nghymru, gyda nifer uchel o danysgrifiadau band eang ac o weinyddion we diogel, sy'n adlewyrchu isadeiledd digidol datblygedig iawn. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrechu i fuddsoddi ymhellach mewn isadeiledd digidol er mwyn hyrwyddo arloesedd digidol, ac i ehangu mynediad at fand eang. Mae'r rhain oll yn ffactorau sy'n cyfrannu'n sylweddol at safle cryf cyffredinol Cymru yn yr is-fynegai Digidol. Mae mentrau megis y prosiect Cyflymu Cymru yn debygol o gynyddu lefelau cysylltiad yn fwy fyth, a dylai Cymru sicrhau bod ei hymdrechion yn trosi i rym cymell tawel. Gallai ehangu ei chyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol i gynulleidfaoedd rhyngwladol fod yn faes i'w wella i Lywodraeth Cymru. Gan fod Cymru yn tanberfformio yn yr is-fynegai Ymgysylltu, gallai manteisio ar lwyfannau digidol yn fwy effeithiol fod yn ffordd i Gymru gynyddu ei chyrhaeddiad at gynulleidfaoedd rhyngwladol.

*Menter*

Perfformiad cryfaf ond un Cymru yw'r is-fynegai Menter. Er bod pryderon bod Cymru ar ei hôl hi o ran economi ehangach Prydain, a hynny o achos ei lefelau isel o werth ychwanegol gros, mae symiau mawr o fuddsoddi uniongyrchol o dramor, nifer fawr o fusnesau bach a chanolig, a lefelau allforio uchel yn awgrymu bod Cymru yn dal i fod yn lleoliad atyniadol i fusnesau. Yn wir, mae Cymru'n gwneud yn well na rhanbarthau mwy yn y mynegai megis Hokkaido a Chatalwnia. Mae Cymru'n gwneud yn dda yn y mesuryddion o ran cystadleurwydd, tryloywder a rhyddid economaidd, ac mae'n gallu manteisio ar gysylltiadau cludiant cryf i ddinasoedd mawr DU ac Ewrop, er mwyn gosod ei hun fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer buddsoddi. Mae hyn yn amlwg yn ei Hardaloedd Menter. Gallai wella, fodd bynnag, ym maes ymchwil a datblygu. Mae Cymru ar ei hôl hi yn y mesuryddion yn ymwneud ag arloesedd, gyda lefelau isel o wariant ar ymchwil a datblygu o gymharu â rhanbarthau eraill. Wrth i Gymru barhau i ddatblygu ei diwydiant gwasanaeth ac i yrru twf yn y sectorau sy'n

## PERFFORMIAD CYMRU



ychwanegu gwerth uchel, bydd cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yn chwarae rhan bwysig.

*Ymgysylltu*

Mae'n amlwg bod gan Gymru, gyda'i swyddfeydd masnachu a buddsoddi, ynghyd â chytundebau chwaer ddinasoedd, hanes o ymestyn allan yn rhyngwladol. Fodd bynnag, daw gryn dipyn y tu ôl i Fflandrys, Catalwnia a'r Alban yn nifer y swyddfeydd masnachu a buddsoddi sydd ganddi dramor, ynghyd â nifer y cytundebau chwaer ddinasoedd sydd ganddi. Dyma'r unig ranbarth yn yr astudiaeth nad yw'n gartref i unrhyw gonsyliaethau cyffredinol o lywodraethau tramor. Mae hyn yn cyfyngu ar ei gallu paraddiplomyddol mewn capasiti ffurfiol, ac felly dylai Cymru weithio'n galetach fyth er mwyn creu cyfleoedd ymgysylltu rhyngwladol ar ei thelerau ei hun. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu ei rhwydwaith dramor, ac mae hyn yn sicr yn galonogol. Byddai rhwydwaith ehangach yn sicr yn cryfhau grym cymell tawel Cymru.

Fodd bynnag, mae Cymru'n rhagori yn ei hymrwymiad i flaenoriaethau rhyngwladol, yn enwedig cynaliadwyedd. Yn ôl Biwro Amgylchedd Ewrop, mae Cymru yn un o brif ailgylchwyr Ewrop, ac yn ail, ar ôl yr Almaen, yn ôl canran y gwastraff a gaiff ei ailgylchu.[23] At hynny, dim ond Cymru o wledydd DU sy'n aelod o Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD), rhwydwaith byd-eang sy'n cynrychioli llywodraethau rhanbarthol ym meysydd newid hinsawdd a datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i Gymru gymryd rhan arweiniol ar faterion cynaliadwyedd ar raddfa ryngwladol, a dylai sicrhau y caiff ei llais ei glywed ar y llwyfan byd-eang. Mae cymryd rhan mewn sefydliadau rhwydwaith rhyngwladol yn gyfle da ar gyfer cynyddu proffil Cymru ac adeiladu cydberthnasau rhyngwladol ystyrlon.

*Diwylliant*

Mae gan Gymru, fel gwledydd eraill DU, drefniant unigryw ar gyfer chwaraeon rhyngwladol penodol. Mae'r ffaith bod ganddi ei thimau pêl-droed a rygbi rhyngwladol ei hun yn sicr yn gymorth wrth gynyddu ei phroffil ar draws chwaraeon rhyngwladol. At hynny, mae Cymru'n gartref i nifer o dimau chwaraeon proffesiynol sy'n cyfrannu'n sylweddol at ei pherfformiad yn yr is-fynegai Diwylliant. Fel y dangoswyd gan Ogledd Corea a De Corea yng Ngemau Olympaidd diweddar y Gaeaf, gall cynrychioliad ym myd chwaraeon gael canlyniadau enfawr ar gyfer canfyddiadau ehangach y byd o wlad; ac felly ni ddylem danbrisio pwysigrwydd chwaraeon fel ased cymell tawel i Gymru.

Fodd bynnag, mae perfformiad cymedrol Cymru yn y mesuryddion Diwylliant eraill, yn enwedig y rhai yn ymwneud â chelf weledol a gwyliau, yn ei hatal rhag cau'r bwlch â rhanbarthau megis Catalwnia a'r Alban, sy'n cynnig ystod ehangach o asedau diwylliannol. Rydym yn cynnwys dau fesurydd gwyliau yn y mynegai: ffilm a cherddoriaeth. O ran Gwyliau Ffilm, mae Cymru'n gwneud yn dda, ac mae yn y trydydd safle ar ôl Québec a'r Alban. Fodd bynnag, o ran gwyliau cerddoriaeth, mae Cymru rywfaint y tu ôl i fwyafrif y rhanbarthau. Mae Cymru hefyd y tu ôl bron yr holl ranbarthau o ran ffigurau twristiaeth, a dim ond Gogledd Iwerddon sydd y tu ôl iddi. Gan fod Cymru'n un o'r rhai sy'n gwario fwyaf ar ddiwylliant ymhlith y rhanbarthau, dylai sicrhau y caiff ei hymdrechion buddsoddi mewn isadeiledd a digwyddiadau eu cyfateb ag ymgyrchoedd priodol i sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn dwyn elw o ran canfyddiadau rhyngwladol a budd economaidd. Mae sefydliadau megis y British Council a Chyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn adnoddau allweddol y dylai Cymru eu defnyddio i ddatblygu gwaith yn y maes hwn.

*Llywodraeth*

O gymharu â'r rhanbarthau eraill, cymedrol yw sgoriau Cymru yn y mesuryddion sy'n mesur datblygiad pobl, cydraddoldeb rhywiol, cydraddoldeb incwm, rhyddid y wasg a rhyddid sifil yn gyffredinol. Er bod gan yr Alban a Gogledd Iwerddon sgôr debyg ar gyfer y mesuryddion hyn, maent ychydig ar y blaen i Gymru o achos sgoriau cryfach yn y Mynegai Awdurdodau Rhanbarthol. Mae'r gwahaniaeth yn y sgoriau yn y Mynegai Awdurdodau Rhanbarthol, sy'n mesur lefel yr awdurdod sydd gan ranbarth, yn adlewyrchu'r grymoedd datganoledig pellach sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Alban yn gallu mynd ymhellach ar y blaen i Gymru o achos nifer uwch o felinau trafod yn y rhanbarth, a daw yn ail i Québec yn

unig. Mae hefyd yn werth nodi mai'r is-fynegai Llywodraeth yw'r unig un y mae Cymru'n perfformio'n waeth na Gogledd Iwerddon ynddo – er nad oes gan Ogledd Iwerddon gytundeb rhannu grym ar waith ar gyfer y weithrediaeth.

*Addysg*

Yn yr is-fynegai Addysg y mae perfformiad gwaethaf Cymru o ran y data gwrthrychol. Mae hyn i raddau helaeth gan fod ganddi lai o brifysgolion gorau'r byd, a llai o fyfyrwyr rhyngwladol o gymharu â gwledydd megis yr Alban, Québec a Chatalwnia. Mae Cymru fymryn y tu ôl i Galatwnia yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol, ond mae Québec a'r Alban yn croesawu mwy na dwbl y nifer sydd gan Gymru. Er bod cydberthynas debygol rhwng hyn a nifer prifysgolion gorau'r byd sydd yn y rhanbarth, nid oes diffyg sefydliadau addysgol ansawdd uchel yng Nghymru. Mae gan Gymru bedair prifysgol ym 500 prifysgol orau'r byd ar hyn o bryd. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y deg rhanbarth, sef tair prifysgol yn y rhestr.

**CANLYNIADAU'R AROLWG**

Mae'n bwysig deall lle gall Cymru wneud newid a manteisio ar yr adnoddau sydd ganddi eisoes i gynyddu ei phroffil ym maes addysg uwch. Gall Cymru weithio tuag at wella ansawdd ei sefydliadau addysgol yn yr hirdymor, a dylai wneud hynny, ond gall hefyd fanteisio ar lwyfannau megis y British Council a chynyddu niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol ym mhrifysgolion gorau Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i fyfyrwyr edrych fwyfwy tuag at brofiad yn y brifysgol, yn hytrach na rhestrau rhyngwladol, a gall Cymru fanteisio ar asedau cymell tawel eraill i ddenu rhagor o fyfyrwyr o dramor.

Mae Cymru yn y seithfed safle ar y cyfan yn yr arolwg, ei safle gwaethaf heblaw am yn yr is-fynegai Addysg. Er iddi wneud yn nodedig o dda yn yr arolwg ar gyfer chwaraeon, nid yw'n gallu gwneud iawn am y sgoriau gwael ym meysydd bwyd, cyfeillgarwch a nwyddau traul a moethus. Wedi dweud hynny, mae'r ail safle yng nghategori chwaraeon yr arolwg yn llwyddiant nodedig ynddo'i hun, a dylid defnyddio hyn fel

**DADANSODDIAD O GANLYNIADAU'R AROLWG**

| | Ffafrioldeb | Bwyd | Cyfeillgarwch | Nwyddau moethus |
|---|---|---|---|---|
| SAFLE | 7 | 9 | 7 | 8 |
| SGÔR | 6.55 | 6.35 | 7.09 | 6.60 |

| | Gwerthoedd gwleidyddol | Yn gallu byw yma | Diwylliant | Chwaraeon |
|---|---|---|---|---|
| SAFLE | 5 | 6 | 6 | 2 |
| SGÔR | 6.45 | 6.85 | 7.08 | 6.49 |

adnodd yn y defnydd cynyddol o ddiplomyddiaeth chwaraeon. Fel y trafodwyd mewn adrannau blaenorol, mae canfyddiadau cadarnhaol o chwaraeon Cymru yn debygol o fod o achos ei chynrychiolaeth annibynnol mewn digwyddiadau chwaraeon mawr. Er mai i wledydd Prydain, Awstralia, Seland Newydd, Ffrainc, Iwerddon a De Affrica yn unig y mae rygbi wedi apelio yn draddodiadol, mae'n ehangu'n gyflym ar draws y byd. Gan fod Hong Kong a Singapore yn cymryd rhan yn y Rygbi Saith Bob Ochr, a chan fod Cwpan Rygbi'r Byd yn cael ei gynnal yn Siapan yn 2019, mae rygbi'n rhoi cyfle cynyddol i Gymru gyrraedd cynulleidfaoedd mwy yn Asia.

Yn gyffredinol, mae Cymru'n cael ei sgoriau uchaf gan India, Tsieina, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Qatar, ac mae'n cael ei sgoriau isaf gan Siapan a'r Almaen. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried bod ymatebwyr yr arolwg yn India yn rhoi sgoriau uwch ar gyfartaledd, a bod ymatebwyr yn Siapan yn rhoi sgoriau is. Wrth gymharu'r sgôr gyfartalog a roddir gan bob gwlad i bob rhanbarth, mae Cymru'n perfformio'n gymharol dda mewn gwirionedd yng Nghanada, Siapan ac Iwerddon, ac yn gymharol wael yn India, Ffrainc a Qatar. Mae Cymru'n cael sgoriau uwch na'r cyfartaledd ar draws categorïau'r arolwg ac eithrio bwyd gan Canada, Tsieina a Siapan, ond yn is na'r sgoriau cyfartalog ar draws categorïau'r arolwg gan Qatar. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod Cymru wrthi'n ceisio adeiladu cysylltiadau rhyngwladol â Qatar. Bydd taith ddyddiol newydd gan Qatar Airways rhwng Caerdydd a Doha yn dechrau ym mis Mai, ac mae Llywodraeth Cymru am agor swyddfa yn Doha yn fuan.

Ceir argraff gymharol dda o Gymru o ran gwerthoedd gwleidyddol a sut le yw i fyw, gan sgorio ychydig yn uwch na'r sgôr gyfartalog. Mae'n cael sgoriau da gan Siapan, Unol Daleithiau America a Chanada yn y meysydd hyn, ond mae'n cael sgoriau is na'r cyfartaledd gan yr Almaen a Qatar. Mae'n ddiddorol nodi bod cymdogion agosaf Cymru'n llai ffafriol tuag ati'n gyffredinol, er eu bod yn fwy tebygol o fod â gwell dealltwriaeth o bwyntiau cyffwrdd cymell tawel Cymru.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i feysydd lle gellir gwella ar ganfyddiadau o Gymru, ond mae'n bwysig ystyried lle mae cyfleoedd, a lle nad oes cymaint. Mae Cymru'n gwneud yn hynod wael ym mhob agwedd ar fwyd, ond mae hwn yn faes anodd gwella arno o ran canfyddiadau. Mae'n bosibl y byddai Cymru eisiau ystyried gweithio ar y maes cyfeillgarwch tuag at dwristiaid. Gan fod twristiaeth yng Nghymru yn ddiwydiant sy'n tyfu, mae'n werth nodi bod Cymru wedi cael sgoriau gweddol isel gan yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Qatar, yr Almaen, Ffrainc ac India. Y gwledydd a oedd fwyaf cadarnhaol am gyfeillgarwch Cymru tuag at dwristiaid oedd Unol Daleithiau America, Siapan a Chanada.

Heblaw am y consensws cyffredinol o ran medr chwaraeon Cymru, mae'r diffyg tueddiadau clir yn yr arolwg efallai'n arwydd o ddealltwriaeth dameidiog o Gymru y tu allan i fyd chwaraeon. Wrth i Gymru weithio tuag at ddatblygu ei hasedau cymell tawel ymhellach, a siapio brand byd-eang cryfach yn y pen draw, bydd yn bwysig adeiladu ar y cryfderau cymell tawel presennol ym meysydd Digidol, Menter a Chwaraeon y mae'n gallu eu defnyddio i greu lefelau uwch o ymwybyddiaeth o Gymru yn rhyngwladol, yr hyn mae'n ei gynrychioli, a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig i gynulleidfaoedd rhyngwladol.

## FFAFRIOLDEB CYFFREDINOL

| | EAU | Yr Almaen | Qatar | Ffrainc | Canada | Siapan | UDA | India | Tsieina | Iwerddon | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 6.81 | 5.06 | 6.62 | 6.69 | 7.13 | 5.08 | 6.48 | 7.82 | 7.34 | 6.48 | 6.55 |
| Cyfartaledd | 6.83 | 5.09 | 7.23 | 6.88 | 6.99 | 4.54 | 6.51 | 8.02 | 7.33 | 6.28 | 6.59 |
| Gwahaniaeth | -0.02 | -0.03 | -0.61 | -0.19 | 0.14 | 0.54 | -0.03 | -0.20 | 0.01 | 0.20 | -0.04 |

# 6. ARGYMHELLION AR GYFER DATBLYGU A DEFNYDDIO GRYM CYMELL TAWEL CYMRU YMHELLACH

Wrth ystyried data cymell tawel gwrthrychol a goddrychol Cymru gyda'i gilydd, ceir perfformiad cymysg. Mae rhai cryfderau clir y gall Cymru adeiladu arnynt, ond hefyd awgrymiadau bod angen gwneud mwy i godi lefelau cyffredinol o ymwybyddiaeth y tu allan i fyd chwaraeon.

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu cyfres o argymhellion wedi'u targedu ac wedi'u llunio i gryfhau asedau cymell tawel Cymru, a manteisio ar y rheini sydd ganddi eisoes. Un o amcanion yr astudiaeth hon oedd datblygu cyfres o argymhellion yn seiliedig ar ganlyniadau'r mynegai cymell tawel rhanbarthol.

Caiff yr argymhellion canlynol eu dosbarthu i bedwar categori. Mae'r tri chategori cyntaf yn canolbwyntio ar adnoddau cymell tawel Cymru, ac yn dilyn strwythur fframwaith ein mynegai cymell tawel. Mae'r categori olaf yn ehangach, ac mae'n defnyddio ein gwybodaeth ar y cyd o arferion gorau o ran cymell tawel a chyfathrebu strategol.

Rhaid cydnabod, wrth gwrs, bod llawer o adnoddau cymell tawel rhanbarth y tu allan i reolaeth y llywodraeth. Mae hyn yn cyfyngu ar y camau uniongyrchol y gall llywodraeth eu cymryd i ddatblygu asedau cymell tawel. Gan gofio hynny, mae camau cadarn yn dal i fod y gellid eu cymryd i gryfhau grym cymell tawel Cymru.

*Addysg*

Gan gymharu addysg uwch ar lefel wladol, mae Prydain yn un o bwerdai academaidd mawr y byd. Dim ond yr Unol Daleithiau sy'n denu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol na gwledydd DU yn gyffredinol, a dim ond yr Unol Daleithiau sydd â mwy o brifysgolion yn 200 prifysgol gorau'r byd na'r DU, yn ôl asesiad QS. Ar lefel ranbarthol, nid yw Cymru wedi llwyddo i fanteisio ar y llwyddiant academaidd hwn gymaint â rhannau eraill o'r DU, yn enwedig yr Alban.

Er mwyn cryfhau ei hasedau cymell tawel ym maes Addysg, ein hargymhelliad cyntaf yw y dylai Cymru dargedu nifer fach o brifysgolion sy'n agos at fod yn y 200 gorau, a gweithio i wneud digon o welliannau i symud y sefydliadau hynny i'r 200 gorau. Byddai cynyddu nifer prifysgolion Cymru sydd ymhlith 200 prifysgol orau'r byd yn anfon neges gref i fyfyrwyr rhyngwladol posibl, ac yn cyfleu Cymru fel lleoliad mwy atyniadol i astudio.

Ein hail argymhelliad yw bod angen ymgyrch bwrpasol ar Gymru i ddenu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol. Dylai Cymru nodi sawl marchnad allweddol, a lansio ymgyrch wedi'i thargedu at fyfyrwyr rhyngwladol arfaethedig. Byddai cynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol o fudd i Gymru yn economaidd, ond byddai hefyd yn hybu ei grym cymell tawel.

Wrth gwrs, dylid cydnabod y gall Llywodraeth Cymru eisoes gyfeirio at ddatblygiadau cadarnhaol sy'n unol â'r argymhelliad hwn. Mae lansiad Cymru Fyd-eang, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y British Council, Prifysgolion Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac wyth prifysgol Cymru, yn llwyfan pwysig y dylid ei ehangu. Mae'r bartneriaeth yn ei thrydedd flwyddyn o raglen beilot gychwynnol sy'n ceisio cynyddu ymgysylltiad â dwy brif farchnad: yr Unol Daleithiau a Fietnam. Gellir ehangu'r model hwn i gynnwys mwy o farchnadoedd yn seiliedig ar gasgliadau'r rhaglen beilot.

*Ymgysylltu*

Mae gan Gymru, fel mwyafrif y rhanbarthau sydd wedi'u cynnwys yn y mynegai, bresenoldeb tramor drwy swyddfeydd masnachu a buddsoddi o amgylch y byd. Fodd bynnag, mae gan Gymru lai o'r swyddfeydd hyn na phob un ond tri rhanbarth sydd wedi'u cynnwys yn y mynegai. Ein trydydd argymhelliad yw adolygu'r rhwydwaith cyfredol a sicrhau ei fod wedi'i alinio â blaenoriaethau.

Byddem hefyd yn dadlau y dylai'r adolygiad ddechrau â'r dybiaeth bod angen mwy o swyddfeydd tramor ar Gymru. Eto, dylid cydnabod cynnydd diweddar gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn. Ym mis Mawrth 2018, agorwyd swyddfa newydd yn Montrèal, a bwriedir agor pedair arall erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ddatblygiad gwych, ac yn gam i'r cyfeiriad cywir. Mae angen i Gymru wneud tipyn o waith er mwyn gwneud cystal â'r lleill yn y maes hwn, gan fod y perfformwyr gorau yn gallu manteisio ar rwydweithiau rhyngwladol llawer mwy sydd eisoes yn bodoli.

Ein pedwerydd argymhelliad yw y dylai Cymru gymryd rhan mewn paraddiplomyddiaeth gyda chyfres o wledydd blaenoriaeth, a'u hannog i agor consyliaethau cyffredinol yng Nghaerdydd. Pe byddai rhagor o gonsyliaethau cyffredinol yng Nghymru, byddai'n golygu bod gwaith ar y cyd rhwng llywodraethau yn haws ac yn fwy tebygol.

Ein pumed argymhelliad yw y dylai Cymru annog ei dinasoedd (cynghorau) i feithrin eu rhwydweithiau rhyngwladol eu hunain drwy bartneriaethau, sefydliadau neu gytundebau chwaer ddinasoedd ar draws ffiniau. Byddai gwneud hynny'n cynyddu'r cyfleoedd am gyswllt rhwng pobl o Gymru a chymunedau tramor. Byddai strwythurau dinas-ranbarth Cymru, megis Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mewn sefyllfa dda i weithredu'r argymhelliad hwn.

*Diwylliant*

Fel y trafodwyd uchod, caiff Cymru ei chydnabod yn rhyngwladol am ei diwylliant chwaraeon gwych. Ond y tu allan i faes chwaraeon, mae Cymru'n tanberfformio o gymharu â rhanbarthau eraill yn yr is-fynegai Diwylliant. O ran datblygu isadeiledd diwylliannol sy'n ffynnu, dim ond hyn a hyn y gall llywodraeth ei wneud. Mae'r mwyafrif o hyn yn cynnwys creu'r ecosystem gywir i ddiwydiannau creadigol ffynnu ynddi, ond nid yw gwneud hynny'n hawdd nac yn syml.

Fodd bynnag, gwelwn ddau gam y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella asedau cymell tawel diwylliannol Cymru. Ein chweched argymhelliad yw y dylai'r Llywodraeth weithio gyda threfnwyr gwyliau a lleoliadau a sefydliadau diwylliannol sydd eisoes yn bodoli i gynnal rhagor o wyliau sydd â phroffil digon mawr i ddenu cynulleidfaoedd rhyngwladol. Pe cai hyn ei gyflwyno'n iawn, byddai nid yn unig yn gwella cyfleoedd diwylliannol i drigolion Cymru, ond byddai'n debygol o gael sgil-effeithiau cadarnhaol drwy ddenu mwy o dwristiaid rhyngwladol. Un ffordd o wneud hyn yn dda fyddai canolbwyntio ymdrechion ar un llwyfan diwylliannol blynyddol a fyddai â digon o adnoddau i gydweithio â sefydliadau, artistiaid a phobl ar raddfa fyd-eang, a darparu profiad o safon fyd-eang.

Mae ein seithfed argymhelliad yn ymwneud â rhan bwysig o ddiwylliant Cymru sy'n sicr yn ei gosod ar wahân i weddill DU: ei hiaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith arbennig o ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod llawer y gellid ei wneud â'r iaith y tu allan i Gymru, gan ei defnyddio i bob pwrpas fel ffordd o ennyn diddordeb yng Nghymru a'i gosod ar wahân i weddill DU. Felly, rydym yn argymell bod Cymru'n gwneud rhagor o ymdrech i rannu'r iaith â chynulleidfaoedd rhyngwladol, gan ei hymgorffori mewn ymgyrchoedd i hyrwyddo twristiaeth. Yn bwysicach fyth, rydym o'r farn y dylai Cymru gyfleu ei hun fel gwlad sy'n eiriol ar ran ieithoedd lleiafrifol ac unigryw, neu ieithoedd sydd mewn perygl hyd yn oed. Drwy wneud hyn, dylai Cymru greu rhwydwaith o ranbarthau a gwledydd sy'n rhannu ieithoedd unigryw, megis Llydaweg, Románsh neu Fasgeg. Yn ogystal, gallai gwaith Cymru i hyrwyddo dwyieithrwydd ac arwain ar bolisïau i ddatblygu a meithrin dwyieithrwydd a'i fuddiannau fod yn rhan

o'r argymhelliad hwn. Mae gan nifer o wledydd ddiddordeb mewn dwyieithrwydd, a gallai Cymru wneud rhagor i rannu ei phrofiad a'i harbenigedd yn y maes hwn.

*Cyfathrebu Strategol a Diplomyddiaeth Gyhoeddus*

Wrth gwrs, mae angen i Gymru nid yn unig feddwl am sut i wella ei hadnoddau cymell tawel sydd ar Gymru, ond hefyd sut i fanteisio ar yr hyn sydd ganddi. Un o ganlyniadau'r arolwg a barodd syndod oedd canfyddiad o gyfeillgarwch/pa mor groesawgar mae Cymru tuag at dwristiaid. Daeth Cymru'n gydradd chweched yn y categori hwn, ac mae ein dadansoddiad atchweliad yn dangos mai dyma'r llywiwr pwysicaf ar gyfer agweddau ffafriol tuag at ranbarthau. Un ffordd o fynd i'r afael â hyn, a dyma yw ein wythfed argymhelliad, yw creu ymgyrch gyfathrebu strategol ar sail pobl Cymru. Dylai'r asiantaeth hyrwyddo twristiaeth, Croeso Cymru, ystyried creu ymgyrch gan ddefnyddio fideo a chyfryngau cymdeithasol yn bennaf i arddangos pobl Cymru'n gweithio ym meysydd lletygarwch, diwylliant, hamdden a theithio. Rhoi pobl Cymru wrth galon ymgyrch hyrwyddo Cymru fyddai'r ffordd orau o arddangos ysbryd cyfeillgar a lletygarwch Cymru.

Mae ein nawfed argymhelliad yn ymwneud â Chwpan Rygbi'r Byd nesaf yn Siapan. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle hwn i adeiladu darn gosod diplomyddiaeth gyhoeddus mawr yn Siapan. Gan y bydd cymaint mwy o ddiddordeb gan Asia yng Nghwpan y Byd 2019, gyda chynulleidfaoedd newydd i'w cyrraedd, dylai Cymru gael gosodwaith cyhoeddus mawr, a sicrhau mai dyma'r ymgyrch allanol gyhoeddus fwyaf y mae Cymru wedi'i chynnal erioed. Gellir edrych ar sut mae rhai gwledydd wedi cynnal tai agored yn ystod y Gemau Olympaidd fel modelau da ar gyfer ymarferiad o'r fath. Mae Gweinyddiaeth Materion Tramor arbenigol y Swistir, Präsenz Schweiz, yn enghraifft arbennig, gan ei bod gan amlaf yn cynnal 'Tŷ'r Swistir' ar gyfer y cyhoedd yn ystod y Gemau Olympaidd. Gallai Cymru hefyd ddwyn ysbrydoliaeth o bafiliynau Expo'r Byd. Waeth sut caiff ei wneud, dylai Cymru drin Cwpan y Byd yn Siapan fel cyfle enfawr i ymgysylltu â'r cyhoedd, ac arddangos y gorau o Gymru, a hynny'n bell y tu hwnt i chwaraeon.

Mae ein degfed argymhelliad, a'r olaf un, yn sicr o fewn grym Llywodraeth Cymru i'w gyflawni. Gan dynnu ar arferion gorau'r byd, gallai Llywodraeth Cymru wneud llawer i wella grym cymell tawel Cymru, a'i gallu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd rhyngwladol yn effeithiol, pe byddai'n gweddnewid y modd y mae'r Llywodraeth yn rheoli ei materion tramor. Ar lefel swyddogion, byddem yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn creu cyfarwyddiaeth ryngwladol yn cyfuno holl swyddogaethau rhyngwladol y llywodraeth. Ar lefel wleidyddol, byddem yn argymell yn gryf eu bod yn creu portffolio gweinidogol rhyngwladol ar lefel y cabinet. Byddai hyn yn arwain at ddull mwy strategol, bwriadus a chydlynol o adeiladu brand cryfach i Gymru. Mae angen i wahanol swyddogaethau ymgysylltu rhyngwladol gael naratif gyson a rhagor o gydweithrediad. Byddai newid ym mecanwaith y llywodraeth o gymorth mawr i gyflawni hynny.

# 7. CASGLIADAU

## O ran yr agenda ymchwil o hyn ymlaen, mae llawer iawn o waith i'w wneud. Byddai meysydd paraddiplomyddiaeth a chymell tawel rhanbarthol yn elwa ar ddau faes gwaith gwahanol. Y cyntaf fyddai canolbwyntio ar adeiladu setiau data mwy cymaradwy ar gyfer llywodraethau rhanbarthol.

Byddai data mwy cymaradwy yn cynorthwyo ymchwilwyr a llunwyr polisi fel ei gilydd, drwy sicrhau cynnydd o ran yr her o fesur. I'r un perwyl, byddai rhywfaint o astudiaethau manwl ar achos ac effaith ymdrechion i fanteisio ar asedau cymell tawel penodol o fudd mawr i'r maes. Dylai'r ail faes gwaith fod drwy ddull hollol ymarferol, a dylid datblygu corff ehangach o arferion gorau y gellir eu rhannu ym maes paraddiplomyddiaeth a diplomyddiaeth gyhoeddus ranbarthol. Byddai ymchwilwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd yn elwa ar fframwaith ar gyfer asesu arferion gorau.

Mae'n sicr yn obaith gennym bod yr adroddiad hwn wedi gwneud cyfraniad bach o leiaf i'r ymchwil ar gymell tawel ar gyfer gweithredwyr anwladwriaethol a'r maes ehangach paraddiplomyddiaeth. Fel y nodwyd yn y bennod ar Fethodoleg, rydym yn cydnabod cyfyngiadau'r astudiaeth benodol hon. Ond hyd yn oed wrth ystyried y rheini, rydym yn gobeithio y bydd ein mynegai rhanbarthol newydd yn cael ei ystyried fel ymdrech gyntaf deilwng i fesur adnoddau cymell tawel rhanbarthau yn systematig. Yn fwy na dim, rydym yn gobeithio y bydd yn ysbrydoli ymchwil pellach yn y maes a dulliau newydd gan lywodraethau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid rhanbarthol, yn enwedig yng Nghymru, i ddatblygu a defnyddio eu grym cymell tawel.

Ni ddylai synnu neb mai'r rhanbarthau sy'n gwneud orau yn ein mynegai cymell tawel yw'r rhai sydd â hanes o adeiladu cenedl heb wladwriaeth. Hynny yw, mae Québec, yr Alban a Chatalwnia oll wedi adeiladu hunaniaeth genedlaethol heb fod yn genedl-wladwriaeth. Maent wedi dod yn agos at annibyniaeth, er – hyd yn hyn – does dim un ohonynt wedi'i wireddu'n wleidyddol. Ond hyd yn oed heb fanteision gwladwriaeth, mae'r rhanbarthau hyn yn sicr wedi llwyddo i adeiladu hunaniaeth ieithyddol, ddaearyddol, ddinesig a gwleidyddol ar adegau, sydd ar wahân i rai'r cenedl-wladwriaethau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

Mae hyn i raddau yn wir am Fflandrys, ac mae'n amlwg bod gwahaniaeth ieithyddol rhyngddi a gweddill Gwlad Belg, er nad yw perthynas pobl Fflandrys â chenedlaetholdeb ac ymwahaniaeth mor eglur â phobl Québec, yr Alban a Chatalwnia. Mae'n debygol bod hynny o ganlyniad i gyd-destun gwleidyddol sy'n wahanol iawn i'r strwythurau grym sy'n llywodraethu mwyafrif y cydberthnasau rhanbarthol-cenedlaethol. Ynghyd â'r Swistir, mae Gwlad Belg yn un o ddwy enghraifft y cyfeirir atynt amlaf o 'gydgymdeithasiad', sy'n golygu rhannu grym gwleidyddol fel datrysiad i raniadau cymdeithasol yn ymwneud ag ethnigrwydd, crefydd a/neu iaith. Mae cydgymdeithasiad Gwlad Belg wedi creu dau brif ranbarth, Fflandrys a Walonia, ynghyd â rhanbarth llai ar gyfer y brifddinas, Brwsel. Gan fod gan Fflandrys a Walonia yr un lefel o ymreolaeth ranbarthol, mae'n bosibl bod yr achos dros annibyniaeth a gwahanu yn darbwyllo llai.

Yng nghyd-destun Cymru, mae proses datganoli wedi bod yn ddatblygiad gweddol ddiweddar. Mae'r Alban, er enghraifft, wedi bod â sefydliadau ar wahân ers cryn amser, megis ei systemau cyfreithiol ac addysg uwch. Gellir disgrifio ymdeimlad cryf yr Alban o hunaniaeth genedlaethol fel un 'dinesig' neu 'wleidyddol' yn gyntaf, 'diwylliannol' yn ail, a 'ieithyddol' yn drydydd pell. Mae hunaniaeth genedlaethol Cymru, ar y llaw arall, i'r gwrthwyneb i hynny o bosibl. Wrth i Gymru

barhau i adeiladu ei sefydliadau, a mynd i'r afael â sut gall y sefydliadau hynny chwarae rhan fwy rhyngwladol, dylai allu cau'r bwlch rhyngddi a'r rhanbarthau mwy sefydledig o ran eu sefydliadau sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth genedlaethol. Fel mae'r data'n ei ddangos, mae gan y gwledydd sydd ar y brig lefel o aeddfedrwydd sefydliadol sydd wedi rhoi cyfres o asedau cymell tawel amlwg iddynt y mae cynulleidfaoedd rhyngwladol yn fwy tebygol o'u hadnabod a'u gweld yn ffafriol.

Dyma'n union y mae'r argymhellion a amlinellwyd uchod yn ceisio ei wneud yn y pen draw, drwy ddau gam gweithredu amlwg. Y cam cyntaf yw datblygu'r adnoddau cymell tawel sydd gan Gymru ymhellach. Ni fyddai hyn yn dod yn hawdd nac am ddim, ond gellid ei wneud drwy'r meysydd a amlygwyd uchod, a dylid ei wneud.

Yr ail gam yw mynd i'r afael â'r hyn y byddwn yn ei ddisgrifio fel problem ymwybyddiaeth brand Cymru. Yn bwysicach na dim, mae angen naratif cydlynol a chyson ar Gymru, sy'n gallu ei gosod ar wahân i'w chymdogion agosaf gyda chynnig clir i randdeiliaid rhyngwladol. Rydym yn teimlo'n gryf y gallai strwythur newydd wedi'i ganoli o fewn Llywodraeth Cymru wneud mwy i gydlynu a threfnu holl ymdrechion rhyngwladol Cymru.

Fel y mae'r data'n ei ddangos, nid yw Cymru'n bell o gyrraedd y pump uchaf yn ein sgoriau. Mae lle i wella yn sicr, ond mae Cymru'n dechrau o sylfaen resymol o ran ei grym cymell tawel. Dylai Llywodraeth Cymru gael ei hannog gan gryfderau cymell tawel Cymru ym meysydd Digidol, Menter a Chwaraeon, ac ystyried argymhellion yr adroddiad hwn fel ffordd o ddatblygu asedau cymell tawel Cymru ymhellach, ac adeiladu'r strwythurau o fewn y llywodraeth i fanteisio ar yr asedau hynny'n fwy effeithiol.

## ATODIAD: MESURYDDION MYNEGAI CYMELL TAWEL RHANBARTHAU A FFYNONELLAU DATA

| Mesurydd | Ffynhonnell |
|---|---|
| **Ymgysylltu** | |
| Nifer y swyddfeydd masnachu / buddsoddi dramor | Amrywiol |
| Nifer y consyliaethau cyffredinol yn y rhanbarth | Embassypages.com |
| Aelodaeth nrg4SD | nrg4SD |
| Mynegai Ansawdd yr Aer | Sefydliad Iechyd y Byd |
| Mynegai Perfformiad Amgylcheddol | Canolfan Yale ar gyfer Cyfraith a Pholisi Amgylcheddol |
| Nifer y chwaer ddinasoedd | Amrywiol |
| Ceiswyr lloches i bob 1000 o bobl | Canolfan Adnoddau Ceiswyr Lloches |
| Mynegai Cyfyngiadau Visa | Henley & Partners |
| | |
| **Diwylliant** | |
| Cyfanswm nifer y twristiaid yn dod i mewn | Amrywiol |
| Gwariant cyfartalog i bob twrist | Amrywiol |
| Nifer y gwyliau ffilm yn y rhanbarth | Amrywiol |
| Nifer Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO | Ystadegau UNESCO |
| Mynegai Pŵer Iaith | Chan, K., 2016. Power Language Index. |
| Nifer yr amgueddfeydd a llyfrgelloedd | Amrywiol |
| Nifer y gwyliau cerddorol yn y rhanbarth | Amrywiol |
| Nifer yr amgueddfeydd da yn y rhanbarth | The Art Newspaper Review |
| Nifer y bwytai seren Michelin yn y rhanbarth | Canllaw Michelin |
| Nifer y timau chwaraeon proffesiynol | Amrywiol |
| Sgôr Canolbwynt Meysydd Awyr | Skytrax |
| Nifer y papurau newydd gweithredol yn y rhanbarth | Amrywiol |
| Gwariant cyhoeddus ar ddiwylliant | Amrywiol |
| | |
| **Llywodraeth** | |
| Sgôr Mynegai Datblygiad Pobl | Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig |
| Mynegai Awdurdodau Rhanbarthol | Hooghe, Liesbet, Gary Marks, Arjan H. Schakel, Sandi Chapman Osterkatz, Sara Niedzwiecki, Sarah Shair-Rosenfield, 2016. Measuring Regional Authority: A Postfunctionalist Theory of Governance, Cyfrol I. |
| Nifer y melinau trafod yn y rhanbarth | Amrywiol |
| Mynegai Cydraddoldeb Rhywiol | Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig |
| Mynegai Democratiaeth yr Economist | Uned Wybodaeth yr Economist |
| Cyfradd dynladdiadau | Amrywiol |
| Sgôr Rhyddid Sifil | Freedom House |
| Y gosb eithaf | Canolfan Cornell ar y Gosb Eithaf |
| Cyfernod Gini | Amrywiol |
| Mynegai Rhyddid y Wasg | Reporters Without Borders |

| | |
|---|---|
| **Addysg** | |
| Sgôr cyfartalog OECD PISA | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) |
| Nifer prifysgolion gorau'r byd | QS |
| Nifer y myfyrwyr tramor | Amrywiol |
| Cymhareb disgyblion i athrawon | Amrywiol |
| Gwariant fel canran o Gynnyrch Domestig Gros | Amrywiol |
| | |
| **Digidol** | |
| Dilynwyr Facebook y Prif Weinidog/Llywodraethwr | Facebook |
| Dilynwyr Twitter y Prif Weinidog/Llywodraethwr | Twitter |
| Dilynwyr Facebook awdurdodau twristiaeth | Facebook |
| Dilynwyr Twitter awdurdodau twristiaeth | Twitter |
| Nifer defnyddwyr y we i bob 100 preswyliwr | Banc y Byd |
| Nifer y gweinyddion gwe diogel (i bob miliwn o bobl) | Banc y Byd |
| Nifer y ffonau symudol (i bob 100 o bobl) | Banc y Byd |
| Lled band y we (mil mbp) | Akamai State of the Internet |
| Mynegai Gwasanaethau Ar-lein y Llywodraeth | Mynegai'r we |
| Mynegai e-gyfranogiad | Mynegai'r we |
| Nifer y tanysgrifiadau band eang sefydlog (i bob 100 o bobl) | Banc y Byd |
| | |
| **Menter** | |
| Patentau byd-eang yn ôl canran o Gynnyrch Domestig Gros | Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd |
| Mynegai Cystadleurwydd | Fforwm Economaidd y Byd |
| Gwerth Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor | Amrywiol |
| Mynegai Sgôr Rhyddid Economaidd | Y Sefydliad Treftadaeth |
| Mynegai Canfyddiadau o Lygrediaeth | Transparency International |
| Gwariant ar ymchwil a datblygiad fel canran o Gynnyrch Domestig Gros | Amrywiol |
| Nifer y busnesau bach a chanolig | Amrywiol |
| Nifer y busnesau bach a chanolig fel canran o'r gyflogaeth gyfan | Amrywiol |
| Gwerth allforion fel canran o Gynnyrch Domestig Gros | Amrywiol |
| Graddfa diweithdra fel canran o'r gweithlu | Amrywiol |
| Nifer prif swyddfeydd busnesau Fortune 500 | Fortune 500 |



Jonathan McClory
yw awdur *The Soft Power 30* ac mae'n arbenigwr ar gymell tawel, diplomyddiaeth gyhoeddus, cysylltiadau diwylliannol a brandio lleoliad. Mae'n gweithio yn Singapore, ac mae'n Rheolwr Cyffredinol ar gwmni Portland yn Asia. Mae wedi ymgynghori â chleientiaid llywodraethau ym Mhrydain, Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia ar enw da, polisi ac ymgysylltu byd-eang effeithiol.

Cyn gweithio yn y sector preifat, roedd Jonathan yn Uwch Ymchwilydd yn yr Institute for Government. Pan oedd yno, creodd Jonathan fynegai cyfansawdd cyntaf y byd ar gyfer mesur grym cymell tawel gwledydd. Bu'r ymchwil blaenorol hwn o gymorth wrth ddatblygu *The Soft Power 30*, a gaiff ei ddefnyddio fel meincnod gan lywodraethau ar draws y byd erbyn hyn.

## CYFEIRIADAU

[1]Nye, J. (1990) "The Changing Nature of World Power", Political Science Quarterly, Cyfrol 105, Rhif 2, tt. 177-190, http://www.jstor.org/stable/2151022

[2]McClory, J. (2017) The Soft Power 30, Llundain: Portland, https://softpower30.com/wp-content/uploads/2017/07/The-Soft-Power-30-Report-2017-Web-1.pdf

[3]Ager, C. F. (1988) "Perceiving, analyzing, and coping with the local-global nexus", International Social Science Journal, cyfrol 40, rhif 171, Awst, tt. 321-340

[4]Nye, J. (2011) The Future of Power, Efrog Newydd: Public Affairs

[5]McClory, J. (2015) The Soft Power 30, Llundain: Portland

[6]Nye, J. (20011) The Future of Power, Efrog Newydd: Public Affairs Press

[7]Dahl, R. (1957) "The Concept of power", Behavioural Science, rhifyn 2, tt 210-215. http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1002/bs.3830020303/abstract

[8]Wilson, E. 2008. "Hard Power, Soft Power, Smart Power" The Annals of the Academy of Political Science, rhifyn 616, t.114. http://journals.sagepub.com/doi abs/10.1177/0002716207312618

[9]Nye, J. (20011) The Future of Power, Efrog Newydd: Public Affairs Press, t. 19.

[10]McClory, J. (2010) The New Persuaders, Llundain: Institute for Government. https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/The%20new%20persuaders_0.pdf

[11]Nye, J. (2011) The Future of Power, Efrog Newydd: Public Affairs Press, t. 19.

[12]Nye, J. (2004) Soft Power: The Means to Success in the World, Efrog Newydd: Public Affairs Press.

[13]Wang, J. (2006) "Localising Public Diplomacy: the role of sub-national actors in nation branding", Place Branding, cyfrol 2, rhif 1, tt. 32-42. https://link.springer.com/article/10.1057/palgrave.pb.5990043

[14]Wang, J. (2006) "Localising Public Diplomacy: the role of sub-national actors in nation branding", Place Branding, cyfrol 2, rhif 1, tt. 32-42. https://link.springer.com/article/10.1057/palgrave.pb.5990043

[15]Xifra, J. (2009) "Catalan public diplomacy, soft power, and noopolitik: A public relations approach to Catalonia's governance", Catalan Journal of Communication & Culture Studies, cyfrol 1, rhif 1. https://www.researchgate.net/publication/240748667_Catalan_public_diplomacy_soft_power_and_noopolitik_A_public_relations_approach_to_Catalonia's_governance

[16]Tuch, H. (1990) Communicating with the World: US Public Diplomacy Overseas, Efrog Newydd: St. Martin's Press, t. 3

[17]Wang, J. (2006) "Localising Public Diplomacy: the role of sub-national actors in nation branding", Place Branding, cyfrol 2, rhif 1, tt. 32-42.

[18]Wang, J. (2006) "Localising Public Diplomacy: the role of sub-national actors in nation branding", Place Branding, cyfrol 2, rhif 1, tt. 32-42.

[19]McClory, J. (2015) The Soft Power 30, Llundain: Portland

[20]McClory, J. (2010) The New Persuaders, Llundain: Institute for Government. https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/The%20new%20persuaders_0.pdf

[21]Olberding, J., & Olberding, D. (2010) "Ripple Effects in Youth Peace-building and Exchange Programs: Measuring Impacts Beyond Direct Participants," International Studies Perspectives, cyfrol 11, tt. 75-91.

[22]Hooghe, L. et al (2016) Measuring regional authority. Volume I: a postfunctionalist theory of governance.Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

[23]EEB (2017) Recycling: Who really leads the world?, Brwsel: Biwro Amgylchedd Ewrop

**© British Council 2018**
Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y DG dros gyfleoedd addysgol a chysylltiadau diwylliannol.